



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



GIG
CYMRU
NHS
WALES

CANLLAWIAU RHYDDHAU O'R YSBYTY

Ionawr 2025

Cynnwys

Cefndir/Cyd-destun

Cysylltiadau â Fframwaith Cymru Gyfan ar gyfer Optimeiddio Llif Cleifion mewn Ysbytai

Y Safonau Gofynnol ar gyfer Rhyddhau Cleifion

Tasgau Allweddol, Safonau a Disgwyliadau ar gyfer Sefydliadau Partner Perthnasol

Byrddau Iechyd

- Lefel Ward
- Timau Rhyddhau Cleifion Integredig
- Timau Arweinyddiaeth Clinigol a Rheolaethol Ysbytai
- Gwasanaethau Iechyd Cymunedol
- Timau Fferylliaeth

Gwasanaethau Cymdeithasol a Phartneriaid Cyflenwi

- Awdurdodau Lleol
- Camau Gweithredu ar y Cyd ar gyfer Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd
- Darparwyr Gofal
 - Gofal Preswyl
 - Gofal Cartref
 - Cludiant i Gleifion
- Y Sector Gwirfoddol

Canllawiau a Gwybodaeth Ategol i Staff

- Llwybrau Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA)
- Asesiadau Gofal Iechyd Parhaus (CHC)
- Cydgysylltydd Gofal
- Aseswyr Dibynadwy
- Rhyddhau Cleifion Cyndyn/Trosglwyddo Gofal i leoliad mwy priodol
- Llwybrau D2RA – Cam i Lawr er mwyn Adfer – Safonau Gofynnol Cenedlaethol (gwelyau “pontio”)
- Rhestr Wirio Annibyniaeth
- Digartrefedd

- Cyfarpar a Thechnoleg Gynorthwyol
- Addasiadau Tai ar gyfer Rhyddhau Cleifion
- Covid/Brigiadau Eraill o Achosion
- Cynnwys a Chefnogi Gofalwyr Di-dâl yn y Broses Rhyddhau Cleifion

Gwybodaeth Ategol Ddefnyddiol ar gyfer Cleifion, Teuluoedd a Gofalwyr Di-dâl

- Trefniadau Codi Tâl ac Asesiad Ariannol ar gyfer Gofal Cymdeithasol
- Dewis Llety Cartref Gofal yn Dilyn Arhosiad mewn Ysbyty
- Gofalwyr Di-dâl

Atodiadau

- Atodiad A: Templed llythyr 'Cynllunio i'ch Rhyddhau'.
- Atodiad B: Trefniadau Codi Tâl ac Asesiad Ariannol ar gyfer Gofal Cymdeithasol
- Atodiad C1: Dewis Llety Cartref Gofal yn Dilyn Arhosiad mewn Ysbyty
- Atodiad C2: Gwybodaeth i Gleifion – Symud i Gartref Gofal yn Dilyn Arhosiad yn yr Ysbyty:
Gan Gynnwys Gwybodaeth am Ddewis Cartrefi Gofal

Cefndir/Cyd-destun

Mae'n hollbwysig darparu trefniadau rhyddhau diogel, amserol ac effeithiol ar gyfer pawb sy'n mynychu ein hysbytai. Er y cydnabyddir bod y trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty'n syml yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r ffaith fod y boblogaeth yn heneiddio wedi arwain at dderbyn nifer cynyddol o gleifion hŷn sydd angen trefniadau cynllunio a chydgyssylltu cymhleth iawn cyn eu rhyddhau. Amcangyfrifir y gall y garfan hon o gleifion ddefnyddio hyd at 80% o welyau cleifion mewnol mewn ysbytai aciwt ar unrhyw un adeg. Fodd bynnag, nid yw'r her hon yn seiliedig ar oedran fel y cyfryw, ond yn hytrach ar y ffaith fod eiddilwch yn dod yn fwyfwy cyffredin ymysg y boblogaeth hon.

Mae eiddilwch yn gyflwr hirdymor; mae'n disgrifio cyflwr iechyd lle mae systemau'r corff yn colli eu cryfder biolegol, corfforol a meddyliol yn raddol. Mae arferion gorau er mwyn gofalu am bobl sy'n byw gydag eiddilwch yn dibynnu ar weithredu'n gynnar i ganfod newidiadau mewn anghenion cymdeithasol, seicolegol a chlinigol sydd wedi arwain at newid mewn gallu corfforol neu alluedd meddyliol. Pan fydd hyn yn digwydd, mae rhag-gynllunio gofal a chymorth cynnar priodol yn gallu atal y sefyllfa rhag dirywio'n argyfwng. Mae defnydd effeithiol o fodelau gofal canolraddol, gan gynnwys ailalluogi, yn gymorth hefyd. Mae'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd â'r 'hyn sydd bwysicaf' i'r boblogaeth, sef parhau i fyw gartref os yw'n ddiogel iddynt wneud hynny.

Ar hyn o bryd, ceir anghydbwysedd yn ein system iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae cyfleoedd yn cael eu colli ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar yn y gymuned. Mae'r system iechyd a gofal cymdeithasol bresennol yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar reoli adweithiol. O ganlyniad, mae'r rhai sy'n byw gydag eiddilwch yn fwy tebygol o gael eu derbyn i'r ysbyty, yn aml am resymau y gellir eu hosgoi. Mae'r dull gweithredu hwn, yn enwedig treulio cyfnodau yn yr ysbyty, yn gallu gwaethygu eiddilwch ac arwain at golli annibyniaeth am nifer o resymau gan gynnwys dod i gysylltiad â haint a gafwyd yn yr ysbyty, colli hyder, a cholli màs cyhyrau (y cyfeirir ato weithiau fel datgyflyru). Mae canlyniad yr olaf yn arwain at ofyniad cynyddol am ofal a chymorth wrth ryddhau claf, er bod argaeledd a chapasiti'r cyfryw ofal a chymorth yn parhau i fod yn gyfyngedig, ac yn aml mae'n arwain at oedi wrth drosglwyddo gofal yn ôl i'r gymuned. Mae oedi wrth ryddhau cleifion i'r gymuned yn creu llif is-optimaid trwy ysbytai aciwt, gan arwain at risg na fydd y boblogaeth ehangach yn gallu derbyn gofal argyfwng a gofal a gynlluniwyd pan fydd ei angen arnynt.

Mae prosesau effeithiol ac effeithlon o gydgysylltu cynlluniau rhyddhau cleifion yn helpu i leihau hyd arhosiad cleifion mewnol ar gyfer cleifion sy'n byw gydag eiddilwch, gan leihau eu cysylltiad â niwed. O ganlyniad, bydd lleihau cyfraddau hyd arhosiad a rhyddhau cleifion ar gyfer y boblogaeth hon yn gwella llif cleifion ledled ysbytai aciwt.

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno canllawiau ar safonau Rhyddhau o'r Ysbyty ar gyfer partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector a'r sector annibynnol yng Nghymru. Disgwylir i bob partner gydymffurfio â'r safonau hyn er mwyn cynorthwyo'r broses o ryddhau cleifion yn ddiogel, yn amserol ac yn effeithlon, naill ai i'w cartrefi eu hunain neu ymlaen i'r camau gofal nesaf.

Mae'r egwyddorion a'r prosesau sy'n helpu i ryddhau cleifion yn ddiogel, yn amserol ac yn effeithiol wedi'u hamlinellu yn y Canllawiau Llwybrau Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA). Dylai pob claf y penderfynir ei dderbyn i'r ysbyty gael ei asesu a'i ddyrannu dros dro i un o bedwar llwybr – 0 i 3. Bydd hyn yn nodi'n fuan ar ôl derbyn y claf pa lefel o gymorth ac adferiad y bydd ei angen arno pan gaiff ei ryddhau er mwyn diwallu ei anghenion gofal parhaus.

Rhaid i gleifion gael eu gosod ar Lwybr D2RA yn unol â'r gofynion a amlinellir o dan yr "Egwyddorion" yng Nghanllawiau Llwybrau D2RA. Bydd hyn yn cynnwys cleifion sydd angen unrhyw gymorth newydd neu ychwanegol gartref o'i gymharu â'r hyn roeddent eisoes yn ei dderbyn cyn cael eu derbyn i'r ysbyty. Mae angen darparu cyfnod o adsefydlu, ailalluogi neu adfer ar gyfer cleifion cyn gwneud penderfyniad am eu hanghenion gofal hirdymor newydd. Mae rhagor o wybodaeth am Lwybrau D2RA ar gael yn yr adran berthnasol o'r canllawiau hyn ar dudalen 16.

Yn ystod arhosiad claf yn yr ysbyty, ac yn benodol cyn ei ryddhau, mae angen i weithwyr iechyd proffesiynol amrywiol gwblhau asesiad cymesur o'i anghenion presennol. Dylai hyn fod ar ffurf asesiad dyddiol parhaus.

Bydd y Cydgysylltydd Gofal a'r Asesydd Dibynadwy yn cefnogi'r broses hon trwy nodi'r hyn sydd ei angen ar y claf wrth symud ymlaen a phwy sy'n gyfrifol am unrhyw ofal tymor byr sydd ei angen i gynorthwyo'r prosesau adfer,

adsefydlu neu ailalluogi lle bo hyn yn berthnasol. Mae rhagor o wybodaeth am Aseswyr Dibynadwy ar gael yn yr adran berthnasol o'r canllawiau hyn ar dudalen 18.

I'r rhan fwyaf o gleifion, bydd asesiad cynhwysfawr o'u hanghenion gofal yn cael ei gwblhau yn ystod cam nesaf y gofal. Bydd yr asesiad yn nodi a oes angen pecyn gofal hirdymor gartref, neu leoliad mewn cartref gofal, ar ôl cwblhau cyfnod ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar adferiad.

Rhaid cynnal yr asesiad hwn yn unol â'r gofynion a nodir mewn deddfwriaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Lle bynnag y bo modd, dylai unigolyn ddychwelyd adref ar gyfer y cyfnod hwn o adferiad â chymorth (Gartref yn Gyntaf). Gallai'r adferiad â chymorth fod ar ffurf gwasanaeth wedi'i gomisiynu neu gymorth gan y teulu neu ofalwyr di-dâl. Ni ddylid cynnig darpariaeth adsefydlu neu ailalluogi Llwybr D2RA cam i lawr neu â gwely oni bai nad oes modd osgoi gwneud hyn.

Cysylltiadau â Fframwaith Cymru Gyfan ar gyfer Optimeiddio Llif Cleifion mewn Ysbytai

Rhaid ystyried a defnyddio'r canllawiau hyn ochr yn ochr â'r Fframwaith Optimeiddio Llif Cleifion mewn Ysbytai. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau gweithredol **Cyflawni'r canlyniadau a'r profiad gorau posibl i bobl yn yr ysbyty** sydd wedi'u llunio o dan y Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng.

Mae'r Fframwaith yn darparu dull gweithredu a fydd yn gwella arhosiad cleifion mewn ysbytai yn ein system gofal ac a fydd yn ystyrlon i staff sy'n ei gyflwyno. Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar ofal yn y ward ac ar atal datgyflyru clinigol cleifion, yn ogystal ag egwyddorion allweddol SAFER, Coch i Wyrdd a Llwybrau D2RA.

Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar daith claf drwy'r lleoliad gofal iechyd, ac mae'r Safonau Gofynnol ar gyfer Rhyddhau Cleifion yn canolbwyntio ar helpu'r claf, a'i deulu neu ei ofalwyr di-dâl, pan gaiff ei ryddhau i fynd adref neu i gam nesaf ei ofal.

Y safonau gofynnol ar gyfer rhyddhau cleifion

- Ni ddylid derbyn neb, yn enwedig unigolion eiddil, oni bai bod yn rhaid darparu eu hunig opsiwn ar gyfer triniaeth mewn gwely ar gyfer cleifion mewnol mewn ysbyty aciwt, a'u bod yn bodloni'r meini prawf preswyllo h.y. mae angen triniaeth aciwt arnynt mewn ysbyty. Yn unol â'r **Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng** a rhaglenni gofal a gynlluniwyd, rhaid cwblhau asesiad, cyn derbyn claf, o'r posibilrwydd o ddefnyddio dewisiadau amgen sy'n ddiogel yn glinigol, ac asesiad o'r perygl o eiddilwch a datgyflyru clinigol mewn achosion pan fydd pobl yn cael eu derbyn am gyfnodau hirach.
- Bydd modd rhyddhau'r rhan fwyaf o gleifion i'w cartref neu eu man preswyllo arferol heb gymorth pellach, ac eithrio'r cymorth a ddarperir gan eu rhwydweithiau cymorth arferol, a allai gynnwys gofalcwyr di-dâl fel aelodau'r teulu, ffrindiau a chymdogion. Mae'r gofyniad am ailalluogi gweithredol, adsefydlu neu ymyriadau therapiwtig eraill yn parhau i fod yn elfen hanfodol o'r broses ryddhau ar gyfer y cleifion hyn a'u gofalcwyr di-dâl, a rhaid ei ystyried yn unol â hynny.

Tasgau Allweddol, Safonau a Disgwyliadau ar gyfer Sefydliadau Partner Perthnasol

Byrddau Iechyd

Mae'n rhaid i fyrddau iechyd sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau hyn ar bob lefel, a sicrhau bod eu proses rhyddhau cleifion yn cysylltu â Fframwaith Cymru Gyfan ar gyfer Optimeiddio Llif Cleifion mewn Ysbytai. Rhaid i fyrddau iechyd barhau i adolygu a mireinio eu prosesau rhyddhau a sicrhau eu hunain bod eu harferion a'u prosesau galluogi'n addas i'r diben, a'u bod yn defnyddio adnoddau yn effeithiol i gyflwyno'r Llwybrau D2RA.

Lefel ward (ysbytai aciwt ac ysbytai cymunedol):

- Bydd trafodaeth cyn-rhyddhau yn gynnar yn y bore yn cynnal adolygiad o bob claf dan arweiniad clinigol. Bydd unrhyw glaf nad yw'n bodloni'r meini prawf i breswyllo, h.y. y mae ei driniaeth aciwt wedi'i chwblhau, yn cael ei ystyried yn ffit yn glinigol ac yn barod i'w ryddhau, gan fabwysiadu'r safonau a'r egwyddorion isod:
- Bydd ail drafodaeth fer cyn rhyddhau yn y prynhawn yn cytuno ar unrhyw gleifion eraill nad oes angen iddynt fod yn yr ysbyty ac y gellir eu rhyddhau. Hefyd, bydd y drafodaeth yn cytuno ar dasgau sydd angen eu cwblhau fel bod modd rhyddhau cleifion yn gynnar y diwrnod canlynol ("gwneud gwaith yfory heddiw").

- Yn ddelfrydol, dylai cynrychiolwyr priodol o'r tîm rhyddhau integredig (neu unigolion cyfatebol), gan gynnwys lle y bo'n bosibl, unrhyw swyddog/cydgysylltydd gofalgwr neu unigolyn cyswllt, gymryd rhan mewn adolygiadau ward (yn enwedig mewn ysbyty cymunedol er mwyn cynorthwyo'r broses cynllunio i ryddhau mewn Llwybr D2RA 2), a/neu gynorthwyo timau amlddisgyblaethol i wneud penderfyniadau effeithiol. Bydd hyn yn helpu tîm amlddisgyblaethol y ward i nodi'n gynnar y llwybr D2RA arfaethedig mwyaf priodol yn unol â'r pedwar cwestiwn "beth sy'n bwysig i mi" y mae'n rhaid i bob gweithiwr proffesiynol allu eu hateb ar gyfer pob person yn eu gofal. Mae'r pedwar cwestiwn allweddol wedi'u hamlinellu yng Nghantllawiau Llwybrau D2RA (tudalen 4) a dylid eu hystyried wrth gynnal rowndiau ar y ward ar gyfer cleifion a all fod angen cymorth cymunedol i'w rhyddhau, ac i ganiatáu i'r tîm amlddisgyblaethol wneud trefniadau mewn da bryd.
- Dylai timau amlddisgyblaethol gynnwys cynrychiolwyr priodol er mwyn adolygu cynnydd cleifion tuag at fod yn ffit yn glinigol a'r cymorth posibl sydd ei angen i hwyluso'r broses o'u rhyddhau. Gall hyn gynnwys y canlynol, ymysg eraill:
 - a. Ymgynghorydd
 - b. Meddygon Iau
 - c. Nyrsio

- d. Therapydd – ffisiotherapi/therapi galwedigaethol/lleferydd ac iaith
 - e. Fferyllwyr
 - f. Gweithwyr cymdeithasol
 - g. Rheolwr gwelyau / Rheolwyr Gweithredol
 - h. Gweinyddiaeth Ysbyty
- Sicrhau arweinyddiaeth broffesiynol a chlinigol rhwng nyrsio, meddygaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd er mwyn rheoli penderfyniadau ar y cyd mewn ffordd effeithiol.
 - Er mwyn lleihau unrhyw oedi yn y broses o adfer a rhyddhau cleifion, rhaid mabwysiadu'r broses Coch i Wyrdd bob amser, a rhaid i'r broses fod yn nodwedd allweddol o drafodaethau cyn-rhyddhau a rowndiau ar y ward, gan gynnwys uwchgyfeirio priodol mewn achosion o oedi nad ydynt wedi'u datrys yn llwyddiannus (yn yr ysbyty a'r tu allan i'r ysbyty).
 - Bydd enw pob claf nad oes angen iddo fod yn yr ysbyty ac sy'n yn addas i'w ryddhau yn cael ei ychwanegu at y rhestr o gleifion sydd i'w rhyddhau, a dyrennir Llwybr rhyddhau **diffiniol** iddo. Dylid sicrhau mai rhyddhau adref heddiw ("gartref yn gyntaf") yw'r Llwybr diofyn.
 - Rhaid cyflwyno prosesau lleol syml, cadarn ac ymatebol i sicrhau bod modd cyfleu penderfyniad a sail resymegol y llwybr diffiniol yn gywir o'r ward i ganolfan gydlynw rhyddhau cleifion er mwyn sicrhau bod modd trefnu asesiad a gofal ymlaen yn ddiogel ac yn briodol trwy'r Llwybr D2RA priodol – gall hyn fod ar ffurf atgyfeiriad Llwybrau D2RA cywir a chynhwysfawr (yn electronig yn ddefnyddol).
 - Ar ôl penderfynu ar y llwybr rhyddhau diffiniol, rhaid hysbysu'r claf a'i deulu neu ei ofalwr di-dâl, darparwyr gofal presennol ac unrhyw staff tai â chymorth ffurfiol, a rhoi manylion y penderfyniad iddynt. Mae angen rhannu unrhyw wybodaeth ychwanegol allweddol yn ystod y cyfnod hwn hefyd. Bydd llawer o'r canllawiau hyn ar gael drwy'r dolenni yn y ddogfen ganllawiau hon. Fodd bynnag,
- mae'n bosibl y bydd angen canllawiau ehangach gan ddibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn, ac mewn achosion o'r fath, rhaid nodi a darparu unrhyw ganllawiau cyfatebol.
- Os nad yw claf neu ei ofalwr di-dâl yn barod i dderbyn 'cynnig' rhyddhau rhesymol a/neu adael yr ysbyty, rhaid dilyn y 'Protocol Rhyddhau Cleifion Cyndyn' mewn modd sensitif. Mae rhagor o wybodaeth am ryddhau cleifion cyndyn, ynghyd â dolen at y canllawiau cyhoeddedig, ar gael yn yr adran **Canllawiau a Gwybodaeth Ategol i Staff** yn y ddogfen hon ar dudalen 16.
 - Mae'n rhaid hysbysu unigolion a'u teuluoedd neu eu gofalwyr di-dâl am y camau nesaf yn ystod pob cam o arhosiad cleifion mewnol, a'u cynnwys yn y broses o gynllunio i ryddhau cleifion. Mae templed llythyr enghreifftiol wedi'i baratoi i'w ddefnyddio a'i roi i gleifion.
 - Mae'n nodi y dylai trefniadau cynllunio i ryddhau'r unigolyn fod ar waith eisoes, ynghyd â'r rhesymau dros ryddhau unigolyn yn gyflym ac yn ddiogel er mwyn cynorthwyo ei adferiad. Mae'r templed enghreifftiol i'w weld yn Atodiad A – templed llythyr 'Cynllunio i'ch Rhyddhau'. Mae gwybodaeth ategol ar gyfer cleifion, teuluoedd a gofalwyr di-dâl y gellir ei defnyddio i ategu'r llythyr hwn ar gael yn yr adran berthnasol o'r canllawiau hefyd ar dudalen 22. Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau pob claf yn wahanol, felly efallai y bydd angen i chi deilwra unrhyw wybodaeth ategol sy'n cael ei darparu yn unol â'r gofynion.
 - Bydd y cydgysylltydd yn sicrhau bod yr holl drefniadau ymarferol yn cael eu gwneud, gan gynnwys argaeledd darparwr gofal presennol, trefniadau trafniadaeth, meddyginiaeth, llythyr rhyddhau ac ati.
 - Lle y bo'n ddiogel gwneud hynny, ac os oes capasiti ar gael, dylid trosglwyddo cleifion Llwybr D2RA O oddi ar y ward i lolfa ryddhau cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl (yn ddefnyddol o fewn dwyawr i nodi bod y claf yn ffit yn glinigol).

- Pan fydd timau clinigol o'r farn bod person yn agos at ddiwedd ei oes, dylai ysbytai ystyried rhoi digon o feddyginiaethau gofal lliniarol ar adeg ei ryddhau i hwyluso gofal diwedd oes yn y man o'i ddewis am y cyfnod hyd nes y cynhelir adolygiad clinigol pellach. Dylai'r meddyginiaethau a roddir fod ar gyfer symptomau diwedd oes presennol a'r rhai a ragwelir ar sail 'rhag ofn'. Dylid penderfynu ar y mathau o feddyginiaeth a roddir yn ôl angen clinigol ac mewn trafodaeth rhwng clinigwyr, y claf a'i anwyliaid. Dylai'r ysbyty rannu gwybodaeth am y meddyginiaethau a roddir ar bresgripsiwn, y rhesymeg a'r cyd-destun clinigol yn brydlon â'r meddyg teulu a chlinigwyr eraill a fydd yn gyfrifol am ofal parhaus y claf, gwneud penderfyniadau a gwneud presgripsiynau yn y dyfodol. Gall y rhain gynnwys nyrsys ardal, staff cartrefi gofal, timau gofal lliniarol cymunedol a fferyllfeydd cymunedol, fel y bo'n briodol.
- Mae adnabod gofalwr di-dâl sy'n ymwneud â'r claf yn gam hanfodol i sicrhau y bydd claf yn cael ei ryddhau'n ddidrafferth. Mae canllawiau ar gael i staff rheng flaen ar adnabod ac ymgysylltu â gofalwyr di-dâl yn yr adran 'Cymorth i Ofalwyr Di-dâl' o'r canllawiau hyn ar dudalen 24.
- darparu cymorth 'ymgartrefu' lle bo angen
- unrhyw fewnbwn gan y gwasanaeth nyrsio cymunedol ar ôl rhyddhau claf.
- Darparu cynllun rhyddhau effeithiol ar gyfer pobl nad oes ganddynt gartref i fynd iddo a sicrhau bod atgyfeiriad at dimau tai priodol yn cael ei wneud.
- Os nad oes angen pecyn gofal newydd neu ddiwygiedig – cynorthwyo'r tîm rhyddhau i wneud unrhyw drefniadau rhyddhau eraill mor gyflym â phosibl er mwyn i'r claf ddychwelyd adref neu i'w gartref gofal yn brydlon.
- Os oes angen pecynnau gofal newydd neu ddiwygiedig – cynorthwyo'r asesydd dibynadwy, lle bo hynny'n berthnasol, i gwblhau unrhyw asesiadau cymesur a helpu i gydgyssylltu unrhyw becynnau gofal sydd eu hangen er mwyn i'r claf ddychwelyd i'w gartref neu i gartref gofal yn brydlon. I gael rhagor o wybodaeth am asesydd dibynadwy, ewch i'r adran 'asesydd dibynadwy' yn y canllawiau hyn.
- Cymorth i wneud atgyfeiriadau ar gyfer Llwybr D2RA 3 gan gydnabod cymhlethdod achosion rhai cleifion.

Timau Rhyddhau Cleifion Integredig

- Darparu cymorth a chynghor arbenigol i dimau'r ward ar y Llwybrau D2RA priodol. Gweithredu fel cyswllt allweddol i ddatrys problemau rhwng timau ysbyty a thimau cymunedol.
- Cynorthwyo (lle bo angen) y nyrs sy'n gyfrifol am ward i drefnu staff penodedig ar y ward er mwyn cefnogi a rheoli'r holl gleifion ar Lwybrau D2RA 0 ac 1. Bydd hyn yn cynnwys:
 - cydweithio â darparwyr cludiant
 - y sector gwirfoddol a grwpiau gwirfoddoli lleol yn helpu i sicrhau bod cleifion yn derbyn cymorth gweithredol (lle bo angen) am y 48 awr gyntaf ar ôl eu rhyddhau. Hefyd, dylai hyn gynnwys cymorth i ofalwyr, lle bo angen, gan wasanaethau gofalwyr priodol

Tîm arweinyddiaeth clinigol a rheolaethol ysbytai:

- Creu lolfeydd rhyddhau diogel a chyfforddus i drosglwyddo cleifion iddynt, gan sicrhau bod digon o le ar gyfer nifer y cleifion y disgwylir iddynt gael eu rhyddhau, yn ogystal â manau ar gyfer cleifion sydd wedi cael triniaeth ddydd ac sy'n gaeth i'r gwely. Sicrhau bod y meini prawf eithrio yn gyfyngedig ac yn glir er mwyn osgoi eithrio cleifion a allai fod yn addas. Mae pob claf Llwybr 0 ac 1 yn addas ar gyfer y lolfeydd rhyddhau.
- Trosglwyddo gwybodaeth o ansawdd uchel yn amserol am bob claf sy'n cael ei ryddhau i Bractis Cyffredinol a gweithwyr

iechyd a gofal proffesiynol perthnasol eraill, gan gynnwys gwybodaeth berthnasol am unrhyw ofalwyr di-dâl a nodwyd.

- Bydd uwch staff clinigol ar gael i gynorthwyo staff ward a staff rhyddhau cleifion i wneud trefniadau priodol yn ymwneud â chymryd risgiau a chynghor clinigol.
- Lle bo'n berthnasol i'r claf, sicrhau bod canlyniadau profion ar gael CYN rhyddhau cleifion, a'u cynnwys mewn dogfennau a roddir i gleifion adeg eu rhyddhau. Pan ddefnyddir wardiau rhithwir, gellir rhyddhau cleifion cyn bod rhai canlyniadau ar gael, ond rhaid bod â chynllun dilynol ar gyfer y claf.
- Gwneud defnydd effeithiol o staff therapiâu sydd ar gael er mwyn cynorthwyo cleifion Llwybr D2RA 2 mewn ysbyty cymunedol (yn enwedig y rhai sydd angen cymorth adsefydlu) i sicrhau eu bod yn cael y canlyniadau a'r profiadau gorau posibl, helpu i reoli hyd arhosiad, ac osgoi oedi diangen wrth ryddhau cleifion. Gall hyn gynnwys sicrhau gweithio 7 diwrnod, ond hefyd sicrhau bod y cyfuniad o sgiliau nyrsio yn gallu darparu model annibyniaeth i'r graddau posibl.
- Sicrhau bod yr holl gleifion y nodir eu bod wedi cyrraedd dyddiau neu wythnosau olaf eu hoes yn cael eu **trosglwyddo'n gyflym (drwy lwybr carlam)** i ofal timau nyrsio cymunedol. Bydd y timau hyn a'r tîm rhyddhau integredig yn gyfrifol am gydgysylltu a hwyluso proses rhyddhau cleifion yn gyflym i'w cartref (a allai fod yn gartref gofal) neu hosbis. Dylai timau nyrsio cymunedol a gofal lliniarol arbenigol fod â threfniadau ar waith i ddarparu cyngor, hyfforddiant a chymorth i aelodau'r teulu a gofalwyr di-dâl, a darparwyr gofal a chymorth.
- Dilyn y canllawiau ar Ofal Iechyd Parhaus y GIG yn unol â'r manylion a nodir yn yr adran berthnasol isod. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau ar Asesiadau Gofal Iechyd Parhaus ar dudalen 17 sy'n cynnwys dolenni at y Fframwaith Cenedlaethol.

Gwasanaethau Iechyd Cymunedol

- Disgwylir i dimau gofal iechyd cymunedol ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol am ddarparu llwybrau D2RA yn ddiogel ac yn effeithiol yn eu hardaloedd.
- Nodi Arweinydd Gweithredol i oruchwyllo'r gwaith o gyflwyno'r model Llwybrau D2RA mewn ysbytai aciwt yn eu hardal.
- Defnyddio staff i gydgysylltu a rheoli'r trefniadau rhyddhau ar gyfer pob claf ar Lwybrau D2RA. Bydd hyn yn cynnwys cleifion sy'n cael eu rhyddhau o ysbytai aciwt ac ysbytai cymunedol, a chyfleusterau Llwybrau D2RA eraill sydd â gwelyau.
- Dewis un man cyswllt sydd ar gael yn hwylus (e.e. 'canolfan cydgysylltu rhyddhau cleifion') a fydd yn derbyn asesiadau gan staff yn yr ysbyty bob amser ac yn dod o hyd i'r gofal y gofynnir amdano ar y cyd ag awdurdodau lleol.
- Darparu pwynt cyswllt penodol i dderbyn ac ymateb i ymholiadau gan y darparwr gofal, aelodau o'r teulu neu ofalwyr di-dâl.
- Gallai'r unigolyn hwn fod yn gydgysylltydd gofal yr ysbyty a/neu'n Asesydd Dibynadwy.
- Defnyddio timau amlddisgyblaethol, ar y diwrnod y maent adref o'r ysbyty, i asesu a threfnu cymorth uniongyrchol i gleifion sydd ar Lwybr D2RA 1. Dylid ymgysylltu'n gynnar ag unrhyw ofalwyr di-dâl cyn y dyddiad rhyddhau er mwyn sicrhau eu bod yn fodlon ac yn gallu darparu unrhyw ofal y cytunwyd arno. Yna dylid gwirio a chadarnhau'r trefniadau hyn ar ddiwrnod rhyddhau'r claf.
- Hwyluso'r broses o ddarparu cyfarpar yn amserol i helpu i ryddhau cleifion er mwyn atal oedi diangen.
- Sicrhau bod cleifion ar Lwybrau D2RA 1 i 3 yn cael eu holrhain er mwyn asesu eu hanghenion hirdymor ar ddiwedd y cyfnod adfer. Os yw hyn yn digwydd mewn

lleoliad cymunedol, fel darpariaeth gofal cymdeithasol, y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am olrhain. Os yw'n digwydd mewn cyfleuster y GIG fel rhan o ddarpariaeth y GIG, y GIG sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon ar y cyd â'r gwasanaethau cymdeithasol fel y bo'n briodol.

- Wrth gynorthwyo Llwybr D2RA 3, mae angen sicrhau llif effeithiol drwy'r llwybr mewn cytundebau LOS, a sicrhau bod asesiadau CHC/FNC angenrheidiol wedi'u cwblhau a bod cynlluniau gofal ar gyfer y cam nesaf wedi'u cytuno, lle bo hynny'n bosibl, o fewn 14 diwrnod o dderbyn claf i'r gwely.
- Cynnal llif cleifion o welyau cymunedol gan gynnwys pecynnau ailalluogi ac adsefydlu mewn lleoliadau cartref gofal (trwy Lwybr D2RA 2), fel bod modd rhyddhau'r grwpiau nesaf o gleifion o ofal aciwt.
- Ar gyfer cleifion y nodwyd eu bod wedi cyrraedd dyddiau neu wythnosau olaf eu hoes, bydd timau Nyrsio Cymunedol a thimau Gofal Lliniarol cymunedol arbenigol yn gweithio gyda'r timau rhyddhau integredig i gydgyssylltu a **hwyluso proses o ryddhau cleifion yn gyflym** i'r cartref, y cartref gofal neu'r hosbis (yn seiliedig ar y 'man marw a ddewisir') trwy'r broses diwedd oes llwybr carlam.
- Nyrsio Cymunedol: bydd gwasanaeth Nyrsio Ardal a Nyrsio Arbenigol Cymunedol yn cael ei ddarparu yn unol â'r Fanyleb Nyrsio Cymunedol Genedlaethol a'i cherrig milltir gweithredu er mwyn sicrhau bod gwasanaeth 7 diwrnod 24 awr yn cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol a bod amseroedd ymateb cymunedol yn cael eu bodloni.

Timau Fferylliaeth

- Mae'n hollbwysig bod timau fferyllol yn cael eu hintegreiddio'n briodol mewn timau aml-ddisgyblaethol. Mae hyn yn cynorthwyo

llif cleifion effeithlon trwy ysbytai, yn lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau sy'n gallu digwydd wrth drosglwyddo gofal, ac yn hwyluso trefniadau i ryddhau cleifion yn ddiogel ac yn amserol.

- Gall gwasanaethau fferylliaeth helpu i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn ffordd ddiogel ac effeithlon, a dylai byrddau iechyd sicrhau eu bod yn gweithredu'r canllawiau canlynol a gyhoeddwyd yn 2022 yn llawn:
Gwneud y gorau o wasanaethau fferylliaeth wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty.

Mae **Gwneud y gorau o wasanaethau fferylliaeth wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty** yn nodi **pum argymhellid allweddol** a chamau gweithredu galluogi.

1. Dylai gwaith cynllunio i ryddhau cleifion ddechrau ar ddiwrnod derbyn cleifion (neu cyn eu derbyn ar gyfer gofal a gynlluniwyd).
2. Gall timau fferylliaeth wneud cyfraniad sylweddol at atal datgyflyru trwy asesu, cynorthwyo a hyrwyddo gallu i weithredu a gallu gwybyddol cleifion yn ystod arhosiad mewn ysbyty.
3. Dylai timau fferylliaeth ddefnyddio egwyddorion SAFER a Choch i Wyrdd i ryddhau cleifion yn ddiogel ac yn amserol.
4. Lleihau'r amser sydd ei angen i brosesu presgripsiynau a meddyginiaethau wrth ryddhau cleifion gan gynnwys cyflenwad atodol diangen o feddyginiaethau arferol cleifion.
5. Dylai fod gan wasanaethau fferylliaeth adnoddau pwrpasol i hwyluso'r broses o ryddhau cleifion yn amserol.

- Yn ogystal â mesurau gorfodol, dylai byrddau iechyd gytuno ar safonau ar gyfer cyfraniad fferylliaeth at ryddhau cleifion yn ddiogel ac yn effeithlon ac ar gyfer mesur perfformiad yn erbyn y safonau hynny yn rheolaidd.

Gwasanaethau Cymdeithasol a Phartneriaid Cyflenwi

Camau Gweithredu ar gyfer Awdurdodau Lleol:

- Dewis Arweinydd Gweithredol ar gyfer arwain a chyflenwi Llwybrau D2RA.
- Cytuno ar drefniant un man cyswllt ar gyfer pob bwrdd iechyd wrth gydgyssylltu'r broses o ryddhau pob claf.
- Defnyddio staff gweithwyr cymdeithasol, gofal cymdeithasol a therapi galwedigaethol mewn ffordd hyblyg mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol er mwyn cynorthwyo cleifion ar Llwybrau D2RA perthnasol lle y nodir bod angen mewnbyn o'r fath.
- Dylai ymchwiliadau diogelu barhau i gael eu cynnal mewn ysbytai, lle bynnag y bo hynny'n hanfodol.
- Cynorthwyo proses gyfathrebu amser real rhwng yr ysbyty a'r un man cyswllt, nid drwy e-bost yn unig. Gellid trefnu hyn ar y cyd â chydgyssylltydd gofal yr ysbyty a/neu'r Asesydd Dibynadwy.
- Cynorthwyo'r broses gyfathrebu gyda chleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr di-dâl.
- Helpu i ddatblygu perthnasoedd sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth rhwng byrddau iechyd, gofal cymdeithasol i oedolion, y trydydd sector a gwasanaethau darparwyr, gyda chymorth cytundebau sefydliadol ysgrifenedig, er mwyn dod â'r holl randdeiliaid ynghyd i gynllunio trefniadau "asesydd dibynadwy" a helpu i ryddhau cleifion o ysbytai.
- Gweithio gyda'u byrddau iechyd lleol partner ac ymddiriedolaethau'r GIG i gytuno ar drefniadau ledled ardal y bwrdd iechyd lleol ar gyfer dirprwyo ymarferwyr i gyflawni asesiadau ar gyfer gofal a chymorth.
- Darparu capasiti i wneud cyfraniad rhagweithiol at yr adolygiad amserol o'r ddarpariaeth gofal yn ystod ymyrraeth Llwybr D2RA er mwyn atal oedi diangen wrth ryddhau cleifion.
- Darparu capasiti i gwblhau asesiad priodol o anghenion os yw'n ymddangos bod gan unrhyw ofalwyr perthnasol angen cymorth.
- Sicrhau trefniant gwaith 7 diwrnod ar gyfer timau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol.
- Helpu i atgyfeirio gofalwyr di-dâl sydd newydd eu hadnabod i'r awdurdod lleol, gan gynnwys ar gyfer Asesiad o Anghenion Gofalwyr, lle bo hynny'n briodol.

Camau Gweithredu ar y Cyd ar gyfer Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd

Bydd gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i fodloni'r Safonau Gofynnol ar gyfer Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty, ac mae'n rhaid i bartneriaid iechyd a Gofal Cymdeithasol wneud y canlynol:

- Cydweithio a rhannu staff er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau a blaenoriaethu mewn perthynas â rhyddhau cleifion, gan barchu llwybrau comisiynu lleol priodol.
- Parhau i fonitro ac adolygu capasiti ledled y system, gan rannu gwybodaeth o safleoedd ysbytai, timau cymunedol a'r Adnodd Capasiti Gofal a Chymorth Cenedlaethol www.cartrefigofal.cymru/
- Er mwyn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â chysylltiadau lluosog ar gyfer cleifion, mynd ati i geisio rhoi trefniadau cyfatebol ar waith ar gyfer tasgau dirprwyedig rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol.

- Sicrhau bod dulliau olrhain cadarn ar waith fel nad yw defnyddwyr gofal yn mynd ar goll yn y system. Monitro'r holl unigolion ar Lwybrau 2 a 3 a allai fod mewn cyfleusterau â gwelyau.
- Bydd y cydgysylltwyr gofal enwebedig yn cadw golwg ar achosion i sicrhau bod cleifion yn gallu dychwelyd i'w man preswyllo arferol ("gartref yn gyntaf") neu symud i'w cartref gofal hirdymor, cyn gynted â phosibl.
- Yn ogystal â darparu cymorth i gleifion, dylai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol weithio'n agos i nodi unrhyw ofalwyr di-dâl newydd a phresennol a allai fod yn gysylltiedig â'r claf cyn gynted â phosibl. Drwy adnabod gofalwyr di-dâl yn gynnar, dylid sicrhau bod modd darparu unrhyw gymorth sydd ar gael mewn modd amserol a sicrhau ei fod yn cael yr effaith fwyaf posibl. Dylai'r ddau bartner rhanbarthol sicrhau bod yr holl ofalwyr di-dâl yn ymwybodol o unrhyw wasanaethau cymorth uniongyrchol y gall yr awdurdod lleol a/neu'r bwrdd iechyd eu cynnig.
- Cydgysylltu gwaith gyda sefydliadau lleol a chenedlaethol yn y sector gwirfoddol er mwyn darparu gwasanaethau a chymorth i bobl, gan gynnwys gofalwyr di-dâl, sydd angen cymorth pan gaiff cleifion eu rhyddhau o'r ysbyty ac ar gyfer adferiad dilynol, i'w helpu i fyw, neu barhau i fyw, mor annibynnol â phosibl, a'u cadw mor iach â phosibl yn y gymuned i helpu i osgoi'r angen am dderbyniadau i'r ysbyty yn y dyfodol.
- Gweithio gyda'n gilydd i ehangu'r capasiti ym meysydd gofal cartref, cartrefi gofal a gwasanaethau ailalluogi yn yr ardal leol, er mwyn galluogi digon o gapasiti Llwybrau D2RA hefyd.

Darparwyr Gofal

Gofal Preswyl

- Cynnal capasiti a nodi lleoedd gwag y gellir eu defnyddio at ddibenion rhyddhau cleifion o'r ysbyty.
- Gofynnir i Reolwyr Cofrestredig ddefnyddio'r Ap Adnodd Capasiti Gofal a Chymorth sy'n cael ei ddarparu gan DEWIS i sicrhau bod gwybodaeth am leoedd gwag ar gael i gydweithwyr y GIG a gofal cymdeithasol mewn amser real.
- Dylai darparwyr Cartrefi Gofal, mewn partneriaeth â'u timau Iechyd Cymunedol lleol, ystyried y ffordd orau o gefnogi anghenion iechyd preswylwyr, yn eu hamgylchedd cyfarwydd, lle bynnag y bo modd.
- Os nad oes perthnasoedd a threfniadau Asesydd Dibynadwy ar waith eisoes, mae angen gweithio gyda'r tîm rhyddhau cleifion integredig i roi'r rheolau a'r prosesau hyn ar waith (Gweler yr adran ar 'Aseswyr Dibynadwy' am ddolenni at ragor o wybodaeth).
- Wrth gynorthwyo Llwybr D2RA 3, mae angen sicrhau llif effeithiol drwy'r llwybr gyda chynifer o gytundebau LOS â phosibl, a sicrhau bod asesiadau'n cael eu cwblhau a bod cynlluniau gofal ar gyfer y cam nesaf yn cael eu cytuno, o fewn 14 diwrnod o dderbyn claf i'r gwely lle bo modd, yn ogystal â sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu trwy ddull ailalluogi os yw hynny'n ymarferol i'r claf.

Gofal Cartref

- Gweithio'n agos gydag arweinwyr y contract iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn manteisio'n llawn ar gapasiti presennol, a nodi capasiti ychwanegol os oes angen, er mwyn cynorthwyo'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty.

- Ar gyfer y darparwyr hynny sy'n cefnogi Llwybr D2RA 1 yn weithredol, sicrhau llif effeithiol trwy'r llwybr gyda chynifer o gytundebau LOS â phosibl, a sicrhau bod asesiadau'n cael eu cwblhau a bod cynlluniau gofal ar gyfer y cam nesaf yn cael eu cytuno yn unol â llinellau amser y cytunwyd arnynt er mwyn atal oedi y gellir ei osgoi yn y llwybr.
- Ar gyfer y darparwyr hynny sy'n cefnogi Llwybr D2RA 1 yn weithredol, sicrhau bod y gofal yn cael ei ddarparu trwy fodel 'galluogi' er mwyn hyrwyddo annibyniaeth ac adferiad, a darparu gofal titradiadwy trwy adolygiad wythnosol. Rhaid cynnal adolygiadau ffurfiol ar ôl 2 a 4 wythnos ar gyfer cleifion sy'n parhau i fod ar y llwybr, er mwyn sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau a chaffael trefniadau gofal mwy hirdymor.

Cludiant i Gleifion

- Mae Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys (NEPTS) yn adnodd hanfodol ar gyfer symud cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys o un lleoliad gofal i leoliad mwy priodol ar safle arall. Yng Nghymru, mae cludiant mewn achosion nad ydynt yn rhai brys yn cael ei gydgyssylltu trwy Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST).
- Disgwylir i WAST, NEPTS, darparwyr annibynnol a darparwyr y sector gwirfoddol ddarparu cymorth fel bod modd trosglwyddo cleifion fel rhan o'r broses ryddhau, a chynorthwyo prosesau trosglwyddo a rhyddhau fel blaenoriaeth er mwyn cynnal llif cleifion a sicrhau'r diogelwch mwyaf posibl i gleifion.
- Mae angen i sefydliadau ystyried rhoi dulliau gweithredu ar waith er mwyn hysbysu WAST wrth i drefniadau uwchgyfeirio a chapasiti ychwanegol gael eu defnyddio. Gall hyn gynnwys dewisiadau cludiant amgen gan gynnwys:
 - Cerbydau sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol neu gerbydau dan gontract os ydynt ar gael.
 - Ceir gwirfoddolwyr.
 - Adnoddau'r sector gwirfoddol.
 - Gwasanaethau tacsî.
- Mae'n rhaid i NEPTS weithio gyda/hwyluso wardiau cleifion mewnol i sicrhau bod cludiant ar gyfer cleifion sy'n cael eu rhyddhau yn cael ei drefnu'r diwrnod cyn eu rhyddhau (gan adlewyrchu'r ffaith fod angen cynllunio i ryddhau cleifion). Bydd wardiau/unedau asesiad aciwt/arhosiad byr yn cael eu heithrio, lle bydd yr angen am ryddhau rhai cleifion ar yr un diwrnod yn cael ei gefnogi a'i alluogi hefyd.

Y Sector Gwirfoddol

Mae llawer o systemau'n gweithio gyda'r sector gwirfoddol eisoes i hwyluso prosesau cyflym a diogel o ryddhau cleifion. Gall y sector gynorthwyo'r gwaith hwn trwy wneud y canlynol:

- Parhau i ganolbwyntio ar ddiogelwch a phrofiadau cadarnhaol i gleifion ar Lwybr D2RA 1, gan sicrhau bod cleifion a gofalgwyr di-dâl yn teimlo eu bod yn derbyn cymorth gartref. Hefyd, maen nhw'n gallu helpu cleifion petrusgar i deimlo'n llawer mwy cyfforddus am gael eu rhyddhau.
- Darparu amrywiaeth o gymorth ymarferol i hwyluso'r broses ryddhau oddi mewn i Lwybr D2RA 1, gan gynnwys cludiant adref a chyfarpar fel sêff ar gyfer allweddî.
- Cynorthwyo cleifion sydd wedi'u rhyddhau trwy ddarparu gwasanaethau ymgartrefu er mwyn cynnal lles yn y gymuned (e.e. gwiriadau diogelwch a siopa am fwyd hanfodol), Llwybr 1.
- Cynorthwyo gofalgwyr di-dâl, gan gynnwys y rhai sy'n ofalgwyr am y tro cyntaf, trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ymarferol, a chwblhau neu wneud atgyfeiriad ar gyfer Asesiad o Anghenion Gofalgwyr fel y bo'n briodol.

- Darparu cymorth parhaus yn y gymuned i gefnogi lles emosiynol, megis galwadau ffôn dyddiol a chwmnïaeth ar gyfer cleifion a gofalwyr di-dâl, Llwybr 1.
- Ymgysylltu â darparwyr y GIG (timau rhyddhau cleifion integredig yn benodol) er mwyn darparu atebion i heriau rhyddhau gweithredol, gan ryddhau staff clinigol ar gyfer gweithgareddau eraill – canolbwyntio ar y cleifion ar Llwybr D2RA 0.
- Defnyddio sefydliadau gwirfoddol lleol sydd wedi'u sefydlu ym mhob Llwybr D2RA a'u gwella gyda mewnbwn gan sefydliadau gwirfoddol mawr.
- Cydgysylltu cymorth rhwng sefydliadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr presennol darparwyr y GIG.

Canllawiau a Gwybodaeth Ategol i Staff

Llwybrau Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA)

- Rhaid gosod cleifion ar Llwybr D2RA yn unol â'r gofynion a amlinellir o dan yr Egwyddorion yng Nghantllawiau Llwybrau D2RA sydd ar gael yma: www.gig.cymru/sa/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-a-gofal-mewn-argyfwng/
- Mae'r model Llwybrau D2RA yn ei gwneud yn ofynnol i gleifion gael cyfnod o ymyrraeth ailalluogi/adfer gweithredol, yn ddelfrydol gartref (Llwybr D2RA 1) neu mewn cyfleuster â gwely (Llwybrau D2RA 2 a 3) cyn gwneud asesiad o'u hanghenion hirdymor. Mae'n rhaid rhoi egwyddorion Gartref yn Gyntaf ar waith.
- Fel arfer, ni fydd unrhyw glaf yn cael ei ryddhau i leoliad cartref gofal hirdymor newydd o wely ysbyty aciwt. Rhaid i gyfnod o ailalluogi mewn gwely (Llwybr D2RA 2)

ragflaenu unrhyw asesiad ar gyfer gofal hirdymor, oni bai ei bod yn amlwg nad yw'r claf yn gallu cymryd rhan mewn prosesau adsefydlu/ailalluogi mewn modd ystyrlon.

- Trwy Llwybr D2RA 3, bydd anghenion cleifion sy'n cael eu rhyddhau mor gymhleth nes eu bod yn debygol o fod angen gofal parhaus am 24 awr mewn gwely yn dilyn asesiad o'u hanghenion gofal hirdymor y tu allan i leoliad ysbyty aciwt. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd anghenion gofal parhaus rhai cleifion yn cael eu hasesu'n ystyrlon ar ôl cyfnod o ailalluogi y tu allan i leoliad ysbyty aciwt. Unwaith y penderfynir bod angen lleoliad hirdymor mewn cartref gofal, bydd angen gwneud trefniadau i symud yr unigolyn i'w leoliad cartref gofal parhaol.
- Os nad yw'r cartref gofal sydd wedi'i ddewis gan yr unigolyn yn gallu ei dderbyn ar y pryd, mae'n bosibl y bydd angen iddo fynd i gartref gofal arall fel lleoliad dros dro. Mae gwybodaeth ategol ar ddewis llety ar gael yn yr adran berthnasol ar dudalen 22 ac yn Atodiadau C1 ac C2.
- Rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol adolygu'r holl leoliadau dros dro yn ofalus, yn unol â deddfwriaeth sydd ar waith o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ni ddylai lleoliad dros dro arwain at lai o flaenoriaeth ar gyfer lleoliad parhaol o'i gymharu â lleoliadau mewn gwelyau'r GIG, sy'n gallu ymddangos fel eu bod o dan fwy o bwysau.
- Os yw'r unigolyn yn aros am becyn gofal cartref i'w helpu i ddychwelyd adref, rhaid cynnal lefel o ymyrraeth ailalluogi er mwyn atal datgyflyru a pheidio â cholli'r sgiliau a gafodd eu hadennill yn ystod y cyfnod ailalluogi. Dylai unrhyw ofalwyr di-dâl sy'n cefnogi'r claf fod yn rhan o'r cymorth ailalluogi hefyd, os yw hynny'n briodol.

- Gall hyn gynorthwyo cleifion i gydymffurfio ac ymgysylltu â'r broses ailalluogi yn ogystal â sicrhau bod cleifion a gofalwyr yn cael eu paratoi ar gyfer pontio yn ôl i'w cartref neu eu man preswyllo arferol.
- Ar sail meini prawf y Fframwaith Optimeiddio Llif Cleifion mewn Ysbytai, mae'n rhaid i ysbytai aciwt ac ysbytai cymunedol ryddhau pob claf cyn gynted ag y penderfynir ei fod yn ffit yn glinigol i gael ei ryddhau. Dylid trosglwyddo cleifion Llwybr D2RA O o'r ward ar yr un diwrnod ag y mae'r penderfyniad hwn yn cael ei wneud, naill ai'n syth adref neu i lolfa ryddhau ddynodedig. Dylid rhyddhau cleifion o lolfa ryddhau cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.
- Ar gyfer Llwybrau D2RA 1-3, rhaid i gleifion adael yr ysbyty o fewn 48 awr (ar y mwyaf) i'r penderfyniad eu bod yn ffit yn glinigol i adael.
- Mae'n rhaid i ysbytai weithio mewn partneriaeth â phartneriaid lleol i fanteisio'n llawn ar gapasiti a phrosesau Llwybr D2RA er mwyn cefnogi gofal cartref da i gleifion a helpu i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau mewn modd diogel a chynaliadwy.
- Mae'n rhaid i ysbytai aciwt ac ysbytai cymunedol gadw rhestr o bawb sy'n addas i'w rhyddhau ac adrodd ar nifer y cleifion ar y rhestr sydd wedi gadael yr ysbyty drwy'r adroddiad sefyllfa ddyddiol. Yn ddelfrydol, dylai'r broses adrodd hon gael ei rheoli drwy'r ganolfan cydgysylltu rhyddhau cleifion.
- Mae'n rhaid comisiynu pob cyfleuster â gwely at ddibenion adfer cyn asesu anghenion yr unigolyn. Er y bydd y rhan fwyaf o bobl hŷn yn adfer yn well trwy ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain, bydd eraill angen lle i wella a datblygu cryfder personol cyn dychwelyd adref. Prif ddiben y cyfleuster â gwely, waeth a yw mewn cartref gofal neu ysbyty cymunedol, yw cynorthwyo pobl i ddychwelyd adref.
- Heb y ffocws hwn, nid oes llawer o obaith y bydd Llwybr D2RA yn cyflawni'r canlyniadau dymunol, ac felly mae lleoliadau tymor byr yn debygol o droi'n barhaol. (**Datblygu model capasiti a galw ar gyfer gofal y tu allan i'r ysbyty (local.gov.uk)**)
- Ni fydd modd cyflwyno'r model Llwybrau D2RA heb weithio'n agos mewn partneriaeth. Bydd canolfannau cydgysylltu rhyddhau cleifion lleol yn cydweithio'n agos bob dydd i wneud y canlynol:
 - Adolygu'r ddarpariaeth ailalluogi ac adsefydlu er mwyn bodloni gofynion y Llwybrau D2RA (cyfleuster â gwelyau neu gartref yr unigolyn).
 - Lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â chysylltiadau lluosog ar gyfer cleifion, a mynd ati i geisio rhoi trefniadau cyfatebol ar waith ar gyfer tasgau dirprwyedig rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol (h.y. gwneud y gorau o fframweithiau asesiadau dibynadwy).
 - Sicrhau bod dulliau olrhain cadarn ar waith fel nad yw defnyddwyr gofal yn mynd ar goll yn y system.
 - Cydweithio â sefydliadau trydydd sector lleol sy'n darparu cymorth i gleifion a gofalwyr di-dâl.
- Mae angen sefydlu trefniadau atebolrwydd ac uwchgyfeirio clir yn ystod pob cam o'r broses Llwybrau D2RA ym mhob ardal, er mwyn nodi a datrys unrhyw oedi y gellir ei osgoi.

Asesiadau Gofal Iechyd Parhaus

Rhaid cwblhau asesiadau'n unol â'r gofynion a nodir yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn y lleoliad mwyaf priodol mewn perthynas â Llwybr D2RA perthnasol yr unigolyn.

Lle bynnag y bo modd, ni ddylid cwblhau'r asesiadau hyn yn y lleoliad aciwt (oni bai eu bod yn bodloni unrhyw eithriad fel y nodir o dan feini prawf y Llwybrau D2RA – gweler Canllawiau Llwybrau D2RA yn yr adran berthnasol ar dudalen 17). Mae'r Fframwaith presennol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022 ar gael yma:

Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG i LLYW. CYMRU

Cydgysylltydd Gofal

Mae rôl y cydgysylltydd gofal yn hollbwysig i'r broses rhyddhau cleifion. Er mai'r nyrs sy'n gyfrifol am bob ward sy'n gyfrifol am gydgysylltu cynlluniau rhyddhau effeithiol yn gyffredinol, mae cydgysylltydd gofal yn gyfrifol am oruchwylio'r cynllun rhyddhau ar gyfer pob claf y mae'n gyfrifol amdano. Mae hyn yn cynnwys asesu, cyfathrebu a rheoli'r broses ryddhau yn weithredol, gan gynnwys egluro y rhagweliar y bydd angen trosglwyddo claf i leoliad gofal mwy priodol, gan gynnwys cartref gofal, os oes gan yr unigolyn anghenion gofal a chymorth hirdymor, mwy cymhleth.

Aseswyr Dibynadwy

Fel rhan o'r broses o gynnal asesiad dibynadwy, mae asesydd dibynadwy – rhywun sy'n gweithredu ar ran a chyda chaniatâd nifer o sefydliadau – yn cynnal asesiad o anghenion iechyd a/neu ofal cymdeithasol mewn amryw o leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol. Y nod yw osgoi dyblygu ac oedi diangen wrth ryddhau cleifion.

Mae canllawiau, ynghyd â phecyn cymorth ategol, wedi'u paratoi ar rôl yr asesydd dibynadwy. Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu egwyddorion, swyddogaethau a chyfrifoldebau allweddol, ac maent yn cynnwys set o enghreifftiau, yn ogystal â rhestr wirio gweithredu asesydd dibynadwy. Mae'r canllawiau hyn ar gael yma:

www.gig.cymru/sa/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-a-gofal-mewn-argyfwng/

Rhyddhau Cleifion Cyndyn/Trosglwyddo Gofal i leoliad mwy priodol

Mae rhyddhau cleifion cyndyn yn digwydd os yw asesiad yn dangos nad oes angen gofal neu driniaeth ar unigolyn mwyach yn yr ysbyty lle mae ar hyn o bryd. Bydd yr asesiad yn dangos bod yr unigolyn yn gallu trosglwyddo i'r cam priodol nesaf o'i ofal, e.e. o wely aciwt

i wely adsefydlu/ail-alluogi mewn lleoliad amgen, neu nad oes angen unrhyw fath o ofal claf mewnol arno bellach. Bydd yr asesiad yn dangos bod yr unigolyn hyn yn ffit yn glinigol i'w rhyddhau, bod adolygiad o'u hanghenion parhaus wedi'i gynnal, a bod trefniadau diogel a phriodol ar waith lle bo angen.

Mae canllawiau ar Ryddhau Cleifion Cyndyn wedi'u llunio. **Ni ddylid defnyddio'r canllawiau hyn oni bai bod pob dull arall o sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu yn y lleoliad mwyaf priodol wedi cael ei ystyried ond nad oedd yn bosibl am resymau amrywiol.**

Ym mhob amgylchiad wrth ddefnyddio'r canllawiau, mae angen canolbwyntio ar yr unigolyn, deall beth sy'n bwysig iddo, a sicrhau bod ei anghenion yn cael eu diwallu mewn ffordd ddiogel a phriodol.

Mae'r broses yn cyfeirio at yr egwyddorion sydd i'w mabwysiadu, gan ganiatáu i systemau a threfniadau lleol gael eu llunio mewn ffordd sy'n darparu'r broses weithredol fwyaf effeithiol ar gyfer partneriaid lleol/rhanbarthol i'w gweithredu'n lleol.

Mae'r Canllawiau ar gyfer Rhyddhau Cleifion Cyndyn/Trosglwyddo Gofal i Leoliad Mwy Priodol ar gael yma: **www.gig.cymru/sa/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-a-gofal-mewn-argyfwng/nod-6/adnoddau-nod-6/the-management-of-reluctant-discharge-transfer-of-care-to-a-more-appropriate-care-setting-guidance-w-pdf/**

Llwybr D2RA Cam i Lawr er mwyn Adfer (SD2R) – Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Llwybr ‘pontio’ D2RA)

Os nad oes modd i glaf adfer a chael ei asesu gartref ar hyn o bryd, y cam nesaf ar y llwybr adref yw arhosiad tymor byr, amser penodedig ar sail anghenion unigol mewn cyfleuster Llwybrau D2RA Cam i Lawr er mwyn Adfer, cyn cynnal adolygiad a throsglwyddo'r claf i Lwybr D2RA 1 cyn gynted â phosibl. Y canlyniad dymunol yw i'r claf ddychwelyd adref yn unol â'r cynllun mewn ffordd amserol. Cyfeirir at y gwelyau hyn yn aml fel 'gwelyau pontio' Llwybr D2RA.

Mae'n rhaid i'r arhosiad mewn gwely gofal llai dwys Llwybrau D2RA, ar gyfer pobl nad yw eu hanghenion gofal a chymorth gartref ar gael, ychwanegu gwerth at fywyd yr unigolyn trwy sicrhau ail-alluogi, gan olygu y gallai fod angen comisiynu llai o ofal a chymorth pan fydd yr unigolyn yn dychwelyd adref.

Disgwylir y bydd gwaith yn cael ei wneud i sicrhau y bydd gofal a chymorth ar gael yn dilyn arhosiad mewn gwely gofal llai dwys Llwybrau D2RA.

Bydd pob unigolyn sy'n cael ei drosglwyddo i'r llwybr gofal hwn angen cynllun rhyddhau sy'n cynnwys nodau clir, a chynllun ailalluogi/adfer sy'n cynnwys strategaeth ymadael glir (cynllun i'r unigolyn ddychwelyd i'w gartref ei hun) a dyddiad rhyddhau arfaethedig.

Mae safonau gofynnol cenedlaethol manwl ar gyfer Llwybrau D2RA cam i lawr er mwyn adfer ar gael yma: www.gig.cymru/sa/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-a-gofal-mewn-argyfwng/nod-6/adnoddau-nod-6/step-down-to-recover-sd2r-national-minimum-service-standards-18-sept-23-w-pdf/

Rhestr Wirio Annibyniaeth

Trwy ddefnyddio Rhyddhau i Adfer yna Asesu rydym am sicrhau bod anghenion gofal claf yn y cam nesaf yn cael eu nodi'n gynnar yn y llwybr. Bydd hyn yn caniatáu i dimau rhyddhau cleifion ddechrau gwneud y cysylltiadau angenrheidiol

gyda'r gwasanaethau cymorth priodol, cyn rhyddhau cleifion. Un ffactor pwysig wrth benderfynu ar y lefel briodol o gymorth sydd ei angen ar unigolyn yw ei lefel o annibyniaeth. Trwy ystyried y ffactorau hyn yn gynnar yn y broses o gynllunio i rhyddhau unigolyn, gallwn sicrhau bod cleifion, eu teuluoedd a'u gofalcwyr di-dâl yn derbyn y lefel briodol o gymorth sydd ei angen arnynt.

Rhestr Wirio Annibyniaeth Pum Rhan y Groes Goch

Mae'r Groes Goch Brydeinig wedi datblygu rhestr wirio annibyniaeth 5 rhan sy'n nodi rhai o'r ffactorau allweddol a allai effeithio ar annibyniaeth unigolyn.

Nod y rhestr wirio hon yw ei bod yn cael ei defnyddio fel canllaw i staff a thimau amlddisgyblaethol sy'n gweithio gyda'r claf i helpu i lywio a hwyluso'r broses ryddhau. Nid yw'n ofynnol bodloni pob pwynt er mwyn rhyddhau'r claf ac ni ddylid ei ddefnyddio fel rhwystr rhag atal rhyddhau yn amserol ac yn briodol. Fodd bynnag, efallai y bydd staff yn dymuno cyfeirio at y rhestr wirio er mwyn ystyried agweddau ar lefel annibyniaeth y claf ac ystyried unrhyw drefniadau ychwanegol a allai hwyluso'r broses ryddhau ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Er enghraifft, gall ymwneud â sefydliadau'r trydydd sector neu'r sector gwirfoddol, fel y nodir ar dudalen 15, gynorthwyo unigolion a'u teuluoedd neu ofalcwyr di-dâl drwy ddarparu cymorth uniongyrchol, neu gymorth i gael gafael ar wasanaethau cymorth parhaus.

Mae'r Rhestr Wirio yn cynnwys:

- Annibyniaeth ymarferol (er enghraifft, amgylchedd cartref addas ac addasiadau).
- Annibyniaeth gymdeithasol (er enghraifft, y perygl o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, a oes ganddynt gysylltiadau ystyrlon a rhwydweithiau cymorth).
- Annibyniaeth seicolegol (er enghraifft, sut maen nhw'n teimlo am fynd adref, ymdopi â straen sy'n gysylltiedig ag anaf).

- Annibyniaeth gorfforol (er enghraifft, ymolchi, gwisgo, gwneud te) a symudedd (er enghraifft, angen benthycu cadair olwyn am gyfnod byr).
- Annibyniaeth ariannol (er enghraifft, y gallu i ymdopi â beichiau ariannol).
- Gweler isod ddolen at Boster sydd wedi'i lunio gan y Groes Goch y byddai staff efallai'n dymuno'i argraffu a'i arddangos fel canllaw gyffredinol i hwyluso cynllunio i ryddhau.

five-part-independence-checklist

Digartrefedd

Ystyr digartrefedd yw sefyllfa lle nad oes gan berson lety, neu le nad yw ei ddeiliadaeth yn sicr. Cysgu allan yw pen draw mwyaf gweladwy ac aciwt y sbectrwm digartrefedd, ond mae digartrefedd yn cwmpasu unrhyw un sydd heb lety, sy'n methu cael mynediad at ei lety, neu sydd mewn sefyllfa lle nad yw'n rhesymol iddo barhau i fyw mewn llety.

Gall digartrefedd, neu'r perygl o ddigartrefedd, gael effaith ddinistriol ar unigolion a theuluoedd, gan effeithio ar eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol, eu hynysu o'u cymunedau lleol, ac effeithio'n negyddol ar gymdeithas.

Cydnabyddir yn gyffredinol nad yw tai yn unig yn gallu atal digartrefedd, a bod pob gwasanaeth cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru yn gallu gwneud cyfraniad pwysig drwy gydweithio a gweithio mewn ffordd integredig er mwyn atal digartrefedd.

Mae **GIG Cymru** yn darparu gwasanaethau trwy 7 bwrdd iechyd lleol a 3 ymddiriedolaeth y GIG. Mae byrddau iechyd lleol yn gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG yn eu hardaloedd, ac maent yn cynnwys lleihau anghydraddoldebau iechyd ledled eu poblogaeth a chomisiynu gwasanaethau gan sefydliadau eraill er mwyn diwallu anghenion eu trigolion. Mae hyn yn cynnwys darparu gofal a chymorth priodol i bobl sy'n wynebu digartrefedd.

Ystyried pobl sy'n wynebu digartrefedd cyn eu rhyddhau.

Mae pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn defnyddio mwy o wasanaethau ysbyty aciwt a gofal brys na'r boblogaeth gyffredinol. Pan fyddant yn cael eu derbyn i ysbyty, maen nhw'n aros am gyfnod llawer hirach fel arfer oherwydd bod ganddynt anghenion lluosog nas diwallwyd. Mae canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol pobl ddigartref yn waeth o lawer na rhai'r boblogaeth gyffredinol. Yn ôl y **Swyddfa Ystadegau Gwladol**, mae oedran marwolaeth cyfartalog y boblogaeth ddigartref tua 30 mlynedd yn iau na'r boblogaeth gyffredinol.

Gall rhyddhau cleifion o'r ysbyty eu gwneud yn fwy bregus ac agored i niwed os ydynt yn ddigartref, mewn perygl o fod yn ddigartref neu os ydynt yn fwy tebygol o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael eu derbyn i'r ysbyty (oherwydd nad yw'r llety presennol yn addas bellach, er enghraifft).

Yn yr un modd ag unrhyw anghenion gofal posibl eraill yn ystod y cam nesaf, rhaid i staff ward mewn ysbyty geisio sefydlu statws digartrefedd gwirioneddol/posibl unigolyn mor agos â phosibl at yr adeg pan gaiff ei dderbyn i'r ysbyty er mwyn sicrhau atgyfeiriadau amserol i **wasanaethau atal digartrefedd awdurdodau lleol a, lle bo'n briodol, gwasanaethau amlddisgyblaethol**.

Bydd hyn yn sicrhau bod modd darparu gofal a darpariaeth briodol ar yr adeg gywir, a thrwy hynny wella canlyniadau i bobl sy'n wynebu digartrefedd ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty, ac osgoi eu hail-dderbyn.

Mae'r newid mewn pwyslais i **gynllunio ar gyfer rhyddhau claf mor gynnar â phosibl**, yn golygu y dylai cymorth mewn unrhyw ffurf (gofal cymdeithasol, iechyd, tai, ac ati) fod ar gael ac yn barod i'r unigolyn adeg cwblhau ei driniaeth, cyn ei fod yn barod i'w rhyddhau.

Rhagor o ddarllen cefndir:

Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru – Cynllun Gweithredu Lefel Uchel – 2021-2026 (wedi'i ddiweddarau)

Iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl sy'n wynebu digartrefedd

Y Gyfadran Iechyd Digartrefedd a Chynhwysiant

Eiddilwch Iechyd ymhlith pobl ddigartref

Egwyddorion gofal sy'n ystyriol o drawma

Cyfarpar a thechnoleg gynorthwyol

Mae gwasanaethau cyfarpar ac addasu cymunedol yn darparu ymatebion arbenigol sy'n galluogi pobl i fyw'n ddiogel ac mor annibynnol â phosibl. Gall hyn helpu pobl i osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty ac aros yn eu cartref eu hunain. Mae'n gallu bod yn elfen hanfodol o ryddhau cleifion yn amserol a rhoi Llwybrau gartref yn gyntaf a D2RA ar waith.

Hefyd, bydd darparu cyfarpar, addasiadau a thechnoleg gynorthwyol yn helpu i leihau'r angen am becynnau gofal sydd angen dau unigolyn i'w darparu, gan leihau oedi wrth ryddhau cleifion oherwydd ceisiadau y gellir eu hosgoi am gymorth gofal cymdeithasol.

Mae cyfarpar a thechnoleg gynorthwyol yn gallu helpu i ryddhau cleifion ar Lwybr 0, ond mae'n debygol iawn o fod yn elfen hanfodol o'r cymorth ar gyfer Llwybrau 1-3. Hefyd, mae'n bosibl y bydd angen cyfarpar a thechnoleg gynorthwyol i gefnogi pobl yn dilyn darpariaeth ailalluogi yn yr hirdymor wrth iddynt symud allan o'r Llwybrau D2RA. Bydd gan bob bwrdd iechyd ac awdurdod lleol wasanaeth cyfarpar cymunedol (gwasanaeth integredig os oes modd), sy'n darparu cyfarpar/technoleg amserol a diogel.

Mae'n rhaid nodi unrhyw angen posibl am gyfarpar cynorthwyol er mwyn gallu rhyddhau claf cyn gynted â phosibl fel rhan o'r gwaith cynllunio i ddarparu'r gofal gorau posibl yn yr ysbyty ac wrth ryddhau claf.

Dyma'r egwyddorion allweddol sy'n sylfaen i ddarparu cyfarpar a thechnoleg:

- Mae diogelwch a lles pobl yn hollbwysig.
- Dylai gwasanaethau cyfarpar cymunedol ganolbwyntio ar yr unigolyn a darparu ymateb hyblyg i anghenion sy'n hyrwyddo annibyniaeth yr unigolyn.
- Mae gan ddefnyddwyr arbenigedd am yr heriau y maent yn eu hwynebu bob dydd, a rhaid iddynt fod yn bartneriaid mewn penderfyniadau asesu ac wrth ddewis cyfarpar.
- Mae'r broses o ddarparu cyfarpar yn seiliedig ar wneud penderfyniadau clinigol yn amserol ac yn glir.

Rhaid sicrhau mynediad cyflym a hawdd at gyfarpar cynorthwyol ac adsefydlu (ar yr un diwrnod os oes angen) a defnyddio cymorth ar y cyd gydag ardaloedd cyfagos neu adleoli staff yn y gymuned os oes angen.

Rhaid sefydlu prosesau effeithiol i sicrhau ymateb a darpariaeth gyflym, hyd yn oed pan fydd cyfarpar yn cael ei ddarparu ar draws ffiniau a phan fydd unigolyn yn cael ei ryddhau i gartref perthynas y tu allan i'r Awdurdod Lleol lle mae'n preswyl fel arfer.

Er mwyn sicrhau bod cyfarpar yn cael ei ddarparu'n amserol, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, partneriaid lleol a Gwasanaethau Cyfarpar Cymunedol Integredig weithio gydag Aseswyr Dibynadwy, a'u cynorthwyo, er mwyn lleihau oedi a dyblygu asesiadau.

Rhaid i asiantaethau partner a gwasanaethau cyfarpar cymunedol ddefnyddio Canllawiau Trawsffiniol y Fforwm Cynghori ar Therapi Galwedigaethol i roi'r prosesau hyn ar waith. Gellir defnyddio'r canllawiau fel sylfaen i negodi rhwng asiantaethau unigol sy'n darparu cyfarpar ar draws ffiniau lleol, gan gynnwys achosion lle mae oedolion ag anghenion dysgu ychwanegol yn byw y tu allan i ffiniau lleol neu achosion o breswyl iad ar y cyd ar draws

ffiniau. Nid yw'r canllawiau'n cynnwys cadeiriau olwyn nac unrhyw gyfarpar arall sy'n cael ei ddarparu trwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Gellir darparu'r canllawiau trwy wasanaethau therapi galwedigaethol lleol.

Addasiadau Tai ar gyfer rhyddhau cleifion

Rhaid cynllunio addasiadau sy'n galluogi ac yn helpu i ryddhau cleifion, yn enwedig mân addasiadau, mor fuan â phosibl ar ôl derbyn claf fel rhan o'r cynllun adfer. Mae'r canllawiau SAFER ar gael yma: gweithrediaeth.gig.cymru/swyddogaethau/y-chwe-nod/nod-5/adnodau-nod-5/safer-safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-defnyddio-safer-coch-i-wyrdd-a-rhyddhau-i-adfer-ac-yna-asesu/

Mae llawer o Lwybrau D2RA ar gael, a rhaid ystyried materion eraill er mwyn darparu'r addasiad cywir. Rhaid rhagweld atgyfeiriadau at wasanaethau lleol a'u cwblhau cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Rhaid i bob bwrdd iechyd sicrhau bod timau rhyddhau integredig yn gwybod sut i drefnu addasiadau sy'n hanfodol cyn gallu rhyddhau unigolyn. Mae'r addasiadau hyn yn debygol o gael eu nodi o dan Lwybrau D2RA 1-3. Rhaid symleiddio prosesau atgyfeirio ar gyfer yr holl aelodau staff ar y ward sydd angen gwneud atgyfeiriadau amserol.

Covid /Brigiadau Eraill o Achosion

Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â'r broses o ryddhau cleifion yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai sefyllfaoedd yn codi lle mae ffactorau allanol yn disodli rhai o'r adrannau yn y canllawiau hyn, neu bob un ohonynt, a bod angen i fyrddau iechyd a phartneriaid cynorthwyol fabwysiadu arferion gwahanol er mwyn cynorthwyo cleifion yn ddiogel. Gall y ffactorau hyn ddigwydd yn genedlaethol neu ar lefel leol ac ynysig.

Mewn amgylchiadau o'r fath, mae disgwyl i'r bwrdd iechyd hysbysu staff bod canllawiau newydd ar waith. newydd ar waith ac y dylai staff gyfeirio at, mabwysiadu a dilyn unrhyw ganllawiau sy'n disodli'r rhai gwreiddiol. Hefyd, hysbysir staff am faint o amser y bydd angen iddynt ddilyn unrhyw ganllawiau sy'n disodli'r rhai gwreiddiol.

Mae canllawiau ategol ar heintiau, arferion atal a rheoli mewn perthynas â Covid a heintiau anadlol eraill ar gael ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol – gweler y dolenni isod – dylid darllen ac ystyried y canllawiau hyn ar ryddhau cleifion ochr yn ochr â'r dogfennau hyn.

Canllawiau ar gyfer Rheoli Heintiau Anadlol
Acíwt mewn Gofal Cymdeithasol [Canllawiau ar gyfer rheoli heintiau anadlol aciwt mewn gofal cymdeithasol o aeaf 2023 i 2024 ymlaen / LLYW.CYMRU](#)

Fframwaith Anadlol Iechyd y Cyhoedd –
[Fframwaith feirysau anadlol y gaeaf 2024 i 2025](#)

Gwybodaeth ategol ddefnyddiol ar gyfer Cleifion, Teuluoedd a Gofalwyr Di-dâl

Trefniadau Codi Tâl ac Asesiad Ariannol ar gyfer Gofal Cymdeithasol

Yn wahanol i ofal iechyd, mae gofal a chymorth cymdeithasol yn ddarpariaeth y gellir codi tâl amdani. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi disgresiwn i awdurdodau lleol godi tâl am ofal a chymorth os ydynt yn dewis gwneud hynny. [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

Pan fo awdurdod lleol wedi cwblhau asesiad o anghenion gofal cymdeithasol a chymorth unigolyn o dan Ddeddf 2014, a'i fod yn bwriadu darparu neu gomisiynu gofal i ddiwallu anghenion dynodedig, mae'n gallu codi tâl am y gofal. Os yw awdurdod lleol yn dymuno codi tâl, rhaid iddo gymhwyso'r gofynion sy'n cael eu hamlinellu yn y Rheoliadau ac mewn Cod Ymarfer sydd ar waith o dan Ddeddf 2014. Mae'r fframwaith cyfreithiol hwn yn helpu i sicrhau bod unrhyw broses codi tâl, os yw hynny'n digwydd, yn gyson, yn deg ac yn fforddiadwy i unigolyn trwy gynnwys nifer o amddiffyniadau ariannol. Mae'r Rheoliadau a'r Cod Ymarfer yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Dylai awdurdod lleol hysbysu unigolyn, a lle bo'n berthnasol, ei ofalwr, am ei bolisi codi tâl cyn iddo gytuno i'r cymorth gofal cymdeithasol. Dyma brif fanylion y trefniadau codi tâl:

- pennu uchafswm tâl wythnosol (£100 yr wythnos ar hyn o bryd – Ebrill 2023) sy'n sicrhau nad oes neb yn talu mwy na'r swm hwn am unrhyw fath o ofal cymdeithasol a chymorth sy'n cael ei ddarparu yn eu cartref eu hunain, yn y gymuned, neu am arhosiad byr (dim mwy nag 8 wythnos) mewn cartref gofal (e.e. Llwybr D2RA 2)
- ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gofal cymdeithasol a chymorth ar ffurf ailalluogi yn ddi-dâl am hyd at 6 wythnos
- os oes angen lleoliad parhaus mewn cartref gofal, ei gwneud yn ofynnol i sicrhau bod yn rhaid i unigolyn allu cadw £50,000 (Ebrill 2023) o'i asedau cyfalaf
- ei gwneud yn ofynnol i beidio â chodi tâl ar bartneriaid a theuluoedd am unrhyw fath o ofal cymdeithasol a chymorth sydd ei angen ar unigolyn (ar sail penderfyniad awdurdod lleol) er mwyn diwallu ei anghenion gofal cymdeithasol a chymorth asesedig yn llawn.

Mae rhagor o wybodaeth, y gellir ei rhannu â chleifion os oes angen, ar gael yn Atodiad B.

Dewis Llety yn Dilyn Arhosiad mewn Ysbyty

Os yw unigolyn yn ffit yn glinigol ac yn barod i'w ryddhau (nid yw'n bodloni'r meini prawf i breswyllo bellach gan fod ei gyfnod o driniaeth aciwt wedi dod i ben), nid yw'n gallu aros yn

yr ysbyty os nad yw'r cartref gofal y mae wedi mynegi dymuniad i symud iddo yn addas i ddiwallu ei anghenion neu os nad oes lle gwag ar gael yno ar y pryd. Mewn achosion o'r fath, bydd angen iddo symud i gartref gofal arall dros dro nes bod unrhyw broblemau'n cael eu datrys.

Mae dogfennau atodol yn ymwneud â dewis wedi'u datblygu i staff gyfeirio atynt a'u defnyddio yn ôl yr angen. Maent ar gael yn:

Atodiad C1 sy'n amlinellu'r trefniadau a'r gofynion cyfreithiol yn ymwneud â dewis llety cartref gofal.

Atodiad C2 sy'n darparu gwybodaeth i gleifion y bydd staff ysbytai yn dymuno ei rhannu gyda chleifion a'u teuluoedd, neu ei defnyddio fel sylfaen ar gyfer gwybodaeth sy'n cael ei chynhyrchu gan y bwrdd iechyd, wrth ryddhau cleifion yn uniongyrchol i gartrefi gofal yn barhaol neu yn hirdymor.

Rhaid cymhwyso'r trefniadau a'r gofynion cyfreithiol yn ymwneud â dewis llety cartref gofal, sy'n cynnwys yr unigolyn a'i ofalwr, os yw unigolyn yn cael ei ryddhau o'r ysbyty i gartref gofal yn barhaol neu dros dro (mwy nag wyth wythnos, ond fel arfer llai na 52 wythnos, fel y nodir mewn deddfwriaeth). Nid yw dewis yn berthnasol os yw unigolyn yn aros mewn cartref gofal am gyfnod byr (llai nag wyth wythnos), o bosibl fel Llwybr D2RA 2 (Ailalluogi), neu fel gofal cam-i-lawr Llwybrau D2RA ('pontio') ar gyfer Llwybr D2RA 1. Dyma'r prif fanylion yn ymwneud â darpar breswylwyr cartrefi gofal a'r sefyllfa a'r cyfrifoldeb yn ymwneud â dewis llety cartref gofal:

- **Lleoliadau awdurdod lleol:** pan fo awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu lleoliad cartref gofal ar gyfer unigolyn o dan y ddeddfwriaeth bresennol, rhaid i'r unigolyn allu mynegi dewis ar gyfer llety cartref gofal penodol..
- **Cleientiaid sy'n ariannu eu gofal eu hunain:** bydd unigolyn y bernir ei fod yn gyfrifol am ariannu costau ei gartref gofal yn llawn oherwydd lefel ei adnoddau ariannol (yn dilyn asesiad ariannol gan ei awdurdod lleol) yn gyfrifol am nodi, trefnu ac ariannu ei leoliad cartref gofal yn llawn. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid cynorthwyo'r unigolyn, a'i deulu/ gofalwr di-dâl, i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am ei gartref gofal, a bydd yn ymrwmo i Gytundeb Gwasanaeth gyda darparwr cartref gofal sy'n gallu diwallu ei anghenion..
- Mae trefniadau lleoliadau **Gofal Iechyd Parhaus y GIG** i'w gweld yn y Fframwaith Cenedlaethol, a rhaid iddynt gael eu cymhwyso os yw gofal iechyd parhaus yn cael ei ddarparu mewn cartref gofal. Mae'r canllawiau ar gael yma: Fframwaith cenedlaethol ar gyfer **Gofal Iechyd Parhaus y GIG** | LLYW.CYMRU.

Gofalwyr di-dâl

Mae gofalwr yn unrhyw un sy'n gofalu,

yn ddi-dâl, am ffrind neu aelod o'r teulu sydd, oherwydd salwch, anabledd, angen iechyd meddwl neu gaethiwed, yn methu ymdopi heb ei gymorth.

Mae gan ofalwyr di-dâl yng Nghymru hawliau cyfreithiol sydd i'w gweld o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n diffinio gofalwr fel: "person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl."

Gall gofalwr fod yn oedolyn, yn blentyn neu'n berson ifanc. Mae gan blant hawliau ychwanegol, gan gynnwys o dan CCUHP a Deddf 2014, ac mae'n bosibl y bydd gan blant a phobl ifanc anghenion gwahanol i gefnogi eu datblygiad o gymharu â gofalwyr sy'n oedolion.

Mae'r hawliau canlynol yn berthnasol i bobl sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i rywun, fel y rhai sy'n cynorthwyo aelod o'r teulu neu ffrind sy'n cael ei ryddhau o'r ysbyty sydd angen gofal wrth adfer neu ofal parhaus:

- Mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth.
- Cael eu hasesu os yw'n ymddangos bod angen cymorth arnynt, gan ddiwallu eu holl anghenion cymwys.

Nodir yn glir bod yn rhaid i berson fod yn "barod ac yn alluog" i ddarparu gofal. Mae'r graddau y mae gofalwr yn gallu darparu gofal ac yn barod i wneud hynny yn cael eu hasesu fel rhan o'r Asesiad o Anghenion Gofalwyr statudol ffurfiol, ond mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn glir bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â phobl sydd angen gofal a chymorth yn gyfrifol am asesiadau cymesur o anghenion gofalwr.

- Mynegi barn ac arfer rheolaeth, a gwneud cyfraniad llawn at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Cael mynediad at eiriolaeth er mwyn eu helpu i gyfrannu at benderfyniadau.

Cymorth i ofalwyr di-dâl

Bydd gan bob ysbyty ei wasanaeth Cymorth i Ofalwyr ei hun sy'n cael ei ddarparu gan aelod o staff yr ysbyty neu staff o sefydliad gofalwyr lleol sy'n gysylltiedig â'r ysbyty. Dylai staff sy'n gyfrifol am ryddhau cleifion wybod sut i atgyfeirio gofalwyr di-dâl sy'n cael eu hadnabod pan fydd claf yn cael ei dderbyn a/neu ei ryddhau o'r ysbyty i'r Gwasanaeth Cymorth i Ofalwyr.

Mae rhagor o wybodaeth am gydweithio rhwng byrddau iechyd a'r gwasanaeth cymorth i ofalwyr ar gael yma: **Canllawiau arferion da ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty: Cydgynhyrchwyd gan ofalwyr di-dâl, gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a sefydliadau gofalwyr**

Hefyd, gall gofalwyr di-dâl gael cymorth gan sefydliadau gofalwyr lleol, fel partneriaid y Carers Trust Network. Gallwch ddod o hyd i'ch gwasanaeth lleol yma: **Dod o hyd i Gwasanaethau Cymorth Lleol i Ofalwyr – Yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr**

Asesiadau o Anghenion Gofalwyr

Mae gan bob gofalwr di-dâl yr hawl i ofyn am Asesiad o Anghenion Gofalwyr statudol er mwyn asesu eu hawl i gael cymorth gan eu hawdurdod lleol i ymgymryd â'u cyfrifoldebau gofalu.

Mynediad at wybodaeth a chynghor

Dylai pob ysbyty sicrhau bod gwybodaeth ar gael i ofalwyr di-dâl. Mae dogfen Gofalwyr Cymru 'Coming out of Hospital – A Guide for Carers' ar gael yma: **Dod allan o'r ysbyty: Canllaw i Ofalwyr**

Mae cymorth ac arweiniad ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â gofalwyr di-dâl trwy'r broses rhyddhau cleifion o'r ysbyty ar gael yma: **Cynnwys gofalwyr di-dâl wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty / trosglwyddo gofal**

Atodiad A

Templed llythyr ‘Cynllunio i’ch Rhyddhau’

Annwyl Glaf

Estynnwn groeso i chi i’n ward ac rydym yn manteisio ar y cyfle hwn i siarad â chi am sut y byddwn yn eich helpu i adael yr ysbyty pan fyddwch chi’n barod i wneud hynny.

Rydym yn gwybod nad yw’r rhan fwyaf o bobl yn hoffi bod yn yr ysbyty, ac unwaith y byddant wedi gwella o’u cyfnod cychwynnol o salwch aciwt, nid yr ysbyty yw’r lle mwyaf diogel neu addas iddynt. Mae pobl yn adfer eu hiechyd yn well, ac maent yn llai tebygol o ddal heintiau ac yn fwy tebygol o adennill y lefel orau o annibyniaeth pan fyddant yn mynd adref neu’n cael gofal yn y gymuned.

Rydym yn dilyn canllawiau o’r enw Rhyddhau i Adfer yna Asesu. Eu nod yw cynorthwyo pobl i adfer eu hiechyd naill ai gartref, neu mewn lleoliad cymunedol arall, fel cartref gofal, tra bod unrhyw gymorth neu ofal parhaus y gallent fod eu hangen yn y dyfodol yn cael eu trefnu.

Ein gwaith ni yw eich helpu drwy’r cyfnod hwn pan fyddwch chi’n sâl iawn, fel y gallwch barhau â’ch adferiad gartref neu mewn lleoliad cymunedol arall, fel cartref gofal, cyn gynted â phosibl.

Felly, hyd yn oed wrth i ni eich derbyn chi yma, byddwn yn cynllunio i’ch rhyddhau cyn gynted ag y mae’r tîm clinigol sy’n gofalu amdanoch yn cytuno eich bod yn ddigon iach yn feddygol i adael ein gofal. Mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth sy’n dangos bod mynd adref, neu fynd i gartref gofal dros dro, yn llawer gwell i lesiant cleifion nag arhosiad hir mewn gwely ysbyty.

Mae gadael yr ysbyty pan fyddwch chi’n ddigon iach yn feddygol yn arwain at nifer o fanteision pwysig i’ch llesiant:

- Rydych yn fwy tebygol o gael cyfleoedd i symud o gwmpas yn eich cartref eich hun, neu mewn cartref gofal, gan gryfhau’ch cyhyrau ac adennill eich hyder.
- Rydych yn llai tebygol o ddal haint gan na fyddwch yng nghwmni cleifion sâl.
- Mae bod mewn amgylchedd llai prysur na ward ysbyty aciwt yn rhoi’r cyfle gorau i chi orffwys, cysgu’n dda ac adfer.

Os oes angen, bydd staff iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i’ch galluogi i adael. Mae’n bosibl y bydd rhai pobl angen cymorth tymor byr gan deulu a ffrindiau pan fyddant yn gadael yr ysbyty, ac efallai y bydd angen pecyn gofal a chymorth ar rai i’w helpu i fyw gartref.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd oedi yn digwydd weithiau cyn trefnu'r pecynnau cymorth hyn. Os yw hyn yn digwydd yn eich achos chi, ni fyddai'n briodol i'ch cadw yn yr ysbyty pan nad oes angen ein gofal brys arnoch mwyach, felly bydd staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda chi i nodi trefniadau addas i'ch galluogi i barhau i adfer mewn lleoliad priodol dros dro tra bod y pecyn gofal yn cael ei drefnu.

Os oes modd, efallai y byddwch am ofyn i'ch teulu neu'ch ffrindiau eich helpu i adael yr ysbyty yn brydlon neu wneud eich trefniadau eich hun ar gyfer cymorth ychwanegol fel y gallwch fynd adref tra byddwch chi'n disgwyl am eich pecyn gofal mwy hirdymor. Os felly, gall staff weithio ochr yn ochr â chi i'ch cyfeirio at unrhyw gymorth sydd ar gael a allai fod o gymorth i chi a'ch teulu neu'ch ffrindiau.

Os nad yw hwn yn ddewis ymarferol i chi, byddwn yn trefnu i'ch trosglwyddo i leoliad cymunedol am gyfnod dros dro tra bod eich trefniadau gofal a chymorth yn cael eu rhoi ar waith.

Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'n bosibl na fyddwch chi'n gallu gadael yr ysbyty ar unwaith tra bod y pecynnau hyn yn cael eu hasesu a'u trefnu. Os yw hyn yn digwydd, bydd timau iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i roi cymorth i chi tra byddwch yn yr ysbyty, ac yn gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol i'ch trosglwyddo dros dro i gartref gofal neu leoliad cymunedol priodol arall, cyn gynted â phosibl ar ôl i'ch tîm clinigol gytuno eich bod yn ddigon iach yn feddygol i adael.

Bydd y staff iechyd a gofal cymdeithasol sy'n ymwneud â'ch triniaeth a'ch cymorth yn gallu darparu gwybodaeth am wasanaethau cymorth y gallech fod eu hangen yn y dyfodol. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr wybodaeth hon yn cael ei darparu i chi cyn gynted ag y daw'n amlwg y gallai fod angen cymorth parhaus arnoch yn dilyn eich arhosiad yn yr ysbyty. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw gwestiynau, cofiwch siarad â'r nyrs sy'n gyfrifol am eich ward neu'r tîm gofal cymdeithasol a fydd yn gallu eich helpu.

Atodiad B

Trefniadau Codi Tâl ac Asesiad Ariannol ar gyfer Gofal Cymdeithasol

Egwyddorion Allweddol

- Mae gofal iechyd sy'n cael ei ddarparu neu ei drefnu gan y GIG ar gael yn ddi-dâl.
- Mae Gofal Cymdeithasol a Chymorth sy'n cael eu darparu neu eu trefnu gan awdurdodau lleol yn ddarpariaeth y gellir codi tâl amdani.

Cyd-destun Cyfreithiol

Os yw awdurdod lleol wedi cynnal asesiad o anghenion gofal cymdeithasol a chymorth, yn unol â'r gofynion a nodir mewn deddfwriaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

(Cymru) 2014 (Deddf 2014), a'i fod yn bwriadu darparu neu drefnu gofal a chymorth, gellir codi tâl am y ddarpariaeth. Mae'r fframwaith codi tâl ac asesiad ariannol presennol ar gyfer gofal cymdeithasol a chymorth sydd ar waith o dan Ran 4 a Rhan 5 o Ddeddf 2014 yn rhoi disgresiwn i awdurdodau lleol godi tâl am ofal a chymorth os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Pan fydd awdurdod lleol yn arfer disgresiwn ac yn codi tâl am y gofal a'r cymorth y mae'n eu darparu neu'n eu trefnu ar gyfer unigolyn, neu'r cymorth y mae'n ei ddarparu neu'n ei drefnu ar gyfer gofalwr, rhaid iddo gymhwysu'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau a'r Cod Ymarfer sydd ar waith o dan y Ddeddf. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys nifer o fesurau diogelu sy'n helpu i sicrhau bod codi tâl, lle mae'n digwydd, yn gyson, yn deg ac yn fforddiadwy i'r unigolyn. Ni ellir codi tâl ar bartneriaid a theuluoedd am unrhyw fath o ofal a chymorth y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu sydd eu hangen ar unigolyn. Daeth y Rheoliadau a'r Cod Ymarfer i rym ym mis Ebrill 2016 ac maent yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.

Gofynion Polisi Codi Tâl Awdurdodau Lleol

Y tu hwnt i ofynion y Ddeddf, y Rheoliadau a'r Cod, pan fydd awdurdod lleol yn penderfynu arfer ei ddisgresiwn a chodi tâl am y gofal a'r cymorth y mae'n eu darparu yn uniongyrchol i'r unigolyn, neu'n eu trefnu ar ei gyfer, mae cynllun a chynnwys ei bolisi ar gyfer codi tâl yn cael eu penderfynu gan yr awdurdod hwnnw. Awdurdodau sy'n gyfrifol am benderfynu pa ofal a chymorth y maent yn codi tâl amdanynt, natur a lefel unrhyw dâl, a sut mae'r taliadau hyn yn cael eu cymhwyso i bobl sy'n derbyn gofal a chymorth. O fewn y fframwaith, mae angen i awdurdodau benderfynu sut mae eu prosesau

ar gyfer ymgymryd â chamau gwahanol o'r gweithdrefnau codi tâl yn cael eu gweithredu, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol. Rhaid i awdurdodau benderfynu pa lwfansau, elfennau i'w diystyru, ac agweddau eraill y maent yn dymuno eu cynnwys yn eu proses asesiad ariannol y tu hwnt i'r rhai sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth. Hefyd, mae angen i awdurdodau sicrhau eu bod yn cymhwyso'r gofynion cyfreithiol a'u polisiau codi tâl lleol mewn ffordd gyson.

Gofal a Chymorth Amhreswyl

Os yw asesiad o anghenion gofal unigolyn, a gynhaliwyd yn unol â'r gofynion sydd ar waith o dan Ddeddf 2014, yn dangos bod angen gofal a chymorth ar yr unigolyn gartref neu yn y gymuned, cynhelir asesiad ariannol o'i allu i dalu. Mae rheoliadau yn pennu uchafswm sy'n daladwy gan unigolyn am y math hwn o ofal a chymorth. £100 yr wythnos yw'r swm hwn ers mis Ebrill 2020.

Bydd yr asesiad ariannol yn ystyried incwm unigolyn (megis pensiwn y wladwriaeth, pensiwn preifat a budd-daliadau lles) ynghyd ag unrhyw gyfalaf (fel cynilion a buddsoddiadau ond nid gwerth ei unig gartref neu ei brif gartref) sydd ganddo dros y Terfyn Cyfalaf (a osodir mewn Rheoliadau) o £24,000. Mae'r swm hwn wedi bod ar waith ers mis Ebrill 2016. Mae incwm ar ffurf enillion yn cael ei ddiystyru'n llawn.

Mae'r Rheoliadau a'r Cod yn nodi'r broses asesu y mae'n rhaid ei defnyddio wrth gyfrifo faint y mae unigolyn yn ei dalu hyd at yr uchafswm. Ar sail y canlyniad, gallai fod yn ofynnol i'r unigolyn dalu'r swm llawn wythnosol, ond gellir codi swm llai neu beidio â chodi tâl o gwbl gan ddibynnu ar lefel y gofal sydd ei angen a lefel incwm a/neu gyfalaf cymwys yr unigolyn.

Gofal a Chymorth Preswyl

Os yw asesiad o anghenion gofal unigolyn, a gynhaliwyd yn unol â'r gofynion sydd ar waith o dan Ddeddf 2014, yn dangos mai'r ffordd orau o ddiwallu anghenion unigolyn yw mewn cartref gofal, unwaith eto cynhelir asesiad ariannol. Unwaith eto, bydd yr asesiad yn ystyried incwm unigolyn (megis pensiwn y wladwriaeth, pensiwn preifat a budd-daliadau lles) ynghyd â chyfalaf (fel cynilion, buddsoddiadau a gwerth unrhyw eiddo y mae'n berchen arno na fydd yn parhau i fod yn gartref i'w bartner, cyn-bartner neu berthynas ddibynnol ar ôl iddo symud i ofal). Mae incwm ar ffurf enillion yn cael ei ddiystyru'n llawn.

Mae'r Terfyn Cyfalaf wedi'i osod (mewn Rheoliadau) ar £50,000 ers mis Ebrill 2019. Os oes gan unigolyn gyfalaf sy'n cyfateb i'r terfyn hwn, neu o dan y terfyn hwn, mae'r awdurdod lleol yn dod yn gyfrifol am yr unigolyn, a bydd yn trefnu lleoliad iddo mewn cartref gofal ac yn talu'r costau yn llawn. Ni ellir defnyddio unrhyw elfen o gyfalaf sydd gan unigolyn sy'n cyfateb i'r Terfyn Cyfalaf, neu o dan y Terfyn, tuag at ei gostau gofal, ac mae'n cadw'r swm hwn i'w wario fel y dymuna. Fodd bynnag, yn y sefyllfa hon, bydd yn ofynnol i unigolyn dalu tuag at ei gostau ar sail asesiad o'i incwm wythnosol cymwys.

Os oes gan unigolyn gyfalaf dros y Terfyn Cyfalaf, bydd angen iddo dalu costau ei gartref gofal yn llawn. Cyfeirir at y categori hwn o breswlydd cartref gofal fel unigolyn sy'n ariannu ei ofal ei hun. Fodd bynnag, bydd gwerth unrhyw eiddo cymwys yn cael ei ddiystyru am 12 wythnos gyntaf ei arhosiad parhaol mewn cartref gofal os yw gwerth unrhyw gyfalaf arall sydd ganddo yn is na'r Terfyn Cyfalaf. Yn ystod y cyfnod hwn bydd yn derbyn cymorth ariannol gan ei awdurdod lleol. Ar ôl y cyfnod hwn, bydd yr unigolyn yn gyfrifol am dalu ei gostau gofal yn llawn a bydd yn ymrwymo i Gytundeb Gwasanaeth gyda'r cartref gofal.

Arhosiad Tymor Byr a Dros Dro mewn Cartref Gofal

Os yw unigolyn yn aros mewn cartref gofal am dymor byr (dim mwy nag 8 wythnos yn ôl diffiniad y rheoliadau) rhaid codi tâl arno fel pe bai'n derbyn gofal gartref neu yn y gymuned – h.y. dim mwy na £100 yr wythnos. Gwneir hyn er mwyn ei alluogi i barhau i dalu ei gostau sy'n gysylltiedig â thai. Os yw'n aros dros dro yn y cartref gofal (dros 8 wythnos ond yn annhebygol o fod yn fwy na 52 wythnos yn ôl diffiniad y rheoliadau), mae'n bosibl y bydd yn ofynnol iddo dalu mwy na £100 yr wythnos ar sail ei adnoddau ariannol, ond bydd gwerth ei eiddo yn cael ei ddiystyru.

Taliadau Cost Ychwanegol ar gyfer Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal

Os yw awdurdod lleol wedi trefnu lleoliad cartref gofal ar gyfer unigolyn, a bod yr awdurdod yn talu amdano, rhaid i'r unigolyn allu mynegi dewis o ran y llety a ffefrir ganddo. Gall yr awdurdod lleol drefnu lleoliadau o'r fath cyn belled â bod amodau penodol yn cael eu bodloni fel y nodir yn y Rheoliadau a'r Cod. Os yw'r llety a ffefrir ganddo'n ddrutach na chyfradd arferol ei awdurdod lleol i ddiwallu anghenion gofal unigolyn yn llawn, neu os yw unigolyn yn gofyn am wasanaethau neu gyfleusterau ychwanegol nad ydynt yn ymwneud â'i anghenion asesedig, gellir gofyn am daliad cost ychwanegol. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i drydydd parti (aelod o'r teulu neu ffrind) ymrwymo i drefniant talu costau ychwanegol, a rhaid i'r trydydd parti fod yn barod i dalu'r gost ychwanegol, ac yn gallu ei thalu, drwy gydol y trefniant.

Ailalluogi

O dan y rheoliadau, os yw asesiad yn dangos bod angen rhyw fath o gymorth ailalluogi ar unigolyn, efallai i helpu i atal yr angen am ragor o ofal a chymorth, neu i gynorthwyo'r broses adsefydlu yn dilyn arhosiad mewn ysbyty, rhaid cyflwyno'r ddarpariaeth hon yn ddi-dâl am hyd at 6 wythnos, er y gellir ymestyn y cyfnod hwn y tu hwnt i 6 wythnos os yw hynny'n fanteisiol i ganlyniadau unigolyn. Amlinellir y ddarpariaeth hon yn y Cod. Gellir darparu cymorth ailalluogi, er enghraifft, yng nghartref yr unigolyn, yn y gymuned, neu mewn cyfleuster cam i lawr a allai fod mewn cartref gofal.

Deddfwriaeth sydd ar waith o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (legislation.gov.uk)

Isod ceir dolenni at y setiau allweddol o Reoliadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu defnyddio os ydynt yn penderfynu arfer disgresiwn a chodi tâl am ofal cymdeithasol a chymorth. Mae dolen at y Cod sy'n ategu'r defnydd o'r Rheoliadau wedi'i darparu hefyd. Mae'r Cod yn ymhelaethu ar ofynion y Rheoliadau ac mae'n cynnwys cyfeiriadau hefyd at setiau penodol o ddeddfwriaeth ddiwygio a fydd wedi diweddarau'r prif Reoliadau ers iddynt ddod i rym ym mis Ebrill 2016.

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 (legislation.gov.uk)

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 (legislation.gov.uk)

Cod ymarfer ar godi ffioedd am wasanaethau gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU

Taflenni Ffeithiau Hawdd eu Darllen

Isod ceir dolenni at daflenni ffeithiau Age Cymru sy'n ymdrin â rhai o'r prif feysydd yn ymwneud â chodi tâl am ofal cymdeithasol.

- Talu am le parhaol mewn cartref gofal yng Nghymru
Microsoft Word – FS10w – Ebrill 2024 (wedi'i ddiweddarau Mai 2024) (Saesneg yn unig)
- Talu am Ofal a Chymorth yn y Cartref yng Nghymru
Microsoft Word – FS46w – Ebrill 2024 (wedi'i ddiweddarau Mai 2024) (Saesneg yn unig)
- Talu am ofal dros dro mewn cartref gofal yng Nghymru
Microsoft Word – FS58w – Mai 2024 (Saesneg yn unig)
- Ailalluogi, gofal canolraddol a gwasanaethau ataliol yng Nghymru
Microsoft Word – FS76w – Mawrth 2024 (Saesneg yn unig)

Atodiad C1

Dewis Llety Cartref Gofal yn Dilyn Arhosiad mewn Ysbyty

Beth yw dewis a phryd mae'n berthnasol?

Pan fo anghenion person am ofal a chymorth i gael eu diwallu gan awdurdod lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") a phan aseswyd bod ei anghenion yn gofyn am lety mewn cartref gofal, mae deddfwriaeth o dan Ddeddf 2014 yn galluogi'r cyfryw berson i fynegi dewis i gael ei leoli mewn cartref gofal penodol. Os gellir bodloni gofynion ac amodau penodol, dylai awdurdod lleol y person drefnu lleoliad yn y cartref gofal o'i ddewis.

Mae dyletswyddau'r awdurdod lleol sydd wedi'u nodi yn y deddfwriaeth yn gymwys:

- o'r adeg y bydd yr **awdurdod lleol** sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion gofal a chymorth y person ("yr awdurdod cyfrifol") wedi cwblhau asesiad ffurfiol o anghenion gofal cymdeithasol a chymorth ac asesiad ariannol ffurfiol, gyda mewnbwn gan staff ysbyty fel y bo'n briodol;
- pan fydd canlyniad yr asesiadau hyn wedi pennu bod angen lleoliad cartref gofal parhaol neu hirdymor ar y person ac mai'r awdurdod lleol cyfrifol fydd yn diwallu ei anghenion gofal drwy drefnu, rheoli a chyllido'r lleoliad hwnnw;
- pan fydd y person yn ariannu costau ei gartref gofal ei hun gan nad yw'n gymwys i gael cymorth ariannol, ac yn gofyn i'r awdurdod lleol cyfrifol drefnu ei leoliad.

Nid yw deddfwriaeth ynglŷn â dewis yn gymwys i unrhyw fath arall o arhosiad mewn cartref gofal (er enghraifft, arhosiad byr mewn cartref gofal i dderbyn gofal cam-i-lawr/ailalluogi), nac i leoliadau cartrefi gofal Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Mae canllawiau ar wahân ar drefnu lleoliadau Gofal Iechyd Parhaus ar gael yma: **Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG | LLYW.CYMRU**

Pwy sy'n gyfrifol?

Yr awdurdod lleol fydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y broses a'r trefniadau lleoli. Os yw person wedi mynegi dewis o gartref gofal penodol, dylid gwneud trefniadau i'w leoli yn y cartref gofal o'i ddewis, cyhyd â bod modd bodloni'n llawn y pedwar amod a bennir yn y Rheoliadau.

Yn ei hanfod, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau:

- bod y cartref gofal yn addas i ddiwallu anghenion asesedig y person;
- bod lle yn y cartref gofal;
- na fyddai'n costio mwy i'r awdurdod lleol na'r swm y byddai fel arfer yn disgwyl ei dalu am lety o'r math hwnnw;
- bod darparwr y cartref gofal yn fodlon ymrwymo i gcontract gyda'r awdurdod lleol i ddarparu'r llety ar delerau ac amodau'r awdurdod lleol.

Os oes angen, gellir cael rhagor o wybodaeth am swyddogaethau a dyletswyddau cyfreithiol awdurdod lleol ynghylch dewis o lety cartref gofal drwy'r dolenni ar ddiwedd yr atodiad hwn.

Nid yw dewis person wedi'i gyfyngu i gartrefi gofal neu ddarparwyr unigol y mae'r awdurdod lleol eisoes yn comisiynu lleoedd ynddynt, nac wedi'i gyfyngu i gartrefi gofal o fewn ffin ddaearyddol yr awdurdod lleol.

Os yw'r awdurdod lleol cyfrifol yn gwrthod trefnu neu sicrhau lleoliad yn y cartref gofal o ddewis y person, rhaid iddynt ddarparu datganiad ysgrifenedig sy'n nodi'r rhesymau penodol dros beidio â gwneud hynny.

Beth sy'n digwydd os nad cyfrifoldeb yr awdurdod lleol fydd lleoliad cartref gofal person?

Pan fydd canlyniad asesiad ariannol person yn golygu nad yw'n gymwys i gael unrhyw gymorth ariannol gan ei awdurdod lleol ac y bydd yn ariannu ei gostau ei hun, dylai staff gwasanaethau cymdeithasol barhau i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r person a'i deulu/gofalwr/eiriolwr i helpu i nodi cartrefi gofal addas, os mai dyna yw dymuniad y person.

Yn ogystal, gall person sy'n ariannu costau ei gartref gofal ei hun ofyn i'w awdurdod lleol wneud yr holl drefniadau ffurfiol a rheoli'r lleoliad ar ei ran os dymuna. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r awdurdod lleol gymhwyso'r un egwyddorion pan fydd y person yn mynegi dewis o ran ei lety.

Sut mae'r broses ddewis yn gweithio gyda'r broses rhyddhau o'r ysbyty?

Pan fydd person yn cael ei dderbyn i'r ysbyty, dylai staff y bwrdd iechyd ddilyn egwyddorion y canllawiau Llwybrau Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA) www.gig.cymru/sa/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-ac-argyfwng/nod-6/adnodau-nod-6/discharge-to-recover-then-assess-report-w-pdf1/ wrth benderfynu pa gymorth pellach y gallai fod ei angen ar berson pan fydd yn barod i gael ei ryddhau o'r ysbyty. Yn y mwyafrif o achosion, bydd person sy'n cael ei ryddhau o'r ysbyty yn uniongyrchol i gartref gofal yn cael ei roi ar Lwybr 3 (Cymorth Cymhleth) gan fod ganddo anghenion newydd neu fwy sylweddol a allai fod angen cymorth cartref gofal.

Felly, mae'r broses ddewis yn berthnasol i unigolion ar Lwybr 3 a phan benderfynwyd mai eu hawdurdod lleol fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros y broses a'r trefniadau lleoli.

Mae'r Canllawiau Rhyddhau o'r Ysbyty **Canllawiau rhyddhau o'r ysbyty | LLYW.CYMRU** yn nodi'r gofynion ffurfiol a'r prosesau rhyddhau y mae'n rhaid eu dilyn pan fernir bod person yn ffit yn glinigol ac yn barod i'w ryddhau. Dylid cwblhau'r broses rhyddhau o'r ysbyty mewn modd priodol, diogel ac amserol ac yn unol â'r gofynion a nodir yn y canllawiau Llwybrau Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA).

Sut gall byrddau iechyd gefnogi'r broses ddewis a pha amserlenni all fod yn berthnasol?

Pan fydd y person yn ffit yn glinigol ac yn barod i adael yr ysbyty, rhaid ei gefnogi i gael ei ryddhau cyn gynted â phosibl. Ni ddylai aros yn yr ysbyty am gyfnodau estynedig pan fydd ei driniaeth wedi dod i ben. Dylai'r broses gyffredinol o symud o'r ysbyty i gartref gofal gael **ei chwblhau cyn gynted â phosibl, yn ddelfrydol o fewn amserlen o tua thair wythnos**. Mae hyn yn berthnasol waeth a yw'r person yn cael ei leoli gan ei awdurdod lleol neu'n ymrwymo i drefniant preifat, fel unigolyn sy'n ariannu'r costau ei hun, gyda'i ddarparwr cartref gofal. Os nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â'r lleoliad, dylid ymgysylltu â darparwr/rheolwr y cartref gofal ar bob cam.

Fodd bynnag, dylid ystyried yr amserlen hon fel canllaw cyffredinol. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen addasu'r amserlenni er mwyn caniatáu i'r broses hon ddod i ben yn llawn. Os felly, dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried y dull mwyaf rhesymol a synhwyrol o gefnogi'r person – dull a all fod yn hyblyg, gan ystyried amgylchiadau unigol yr achos, ac sy'n cyd-fynd ag unrhyw drefniadau y cytunwyd arnynt yn lleol. O dan rai amgylchiadau, efallai na fydd modd cadw at yr amserlen hon neu efallai y bydd ffactorau lliniarol sy'n golygu y bydd angen mwy o amser. Dylai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o amgylchiadau unigol a'u hystyried wrth benderfynu ar amserlen resymol. Waeth pa ddull a ddefnyddir, dylid cofnodi unrhyw benderfyniad ynglŷn â'r amserlen gyffredinol, a chyfleu manylion yr amserlen dan sylw i'r person.

Yn y lle cyntaf, dylai'r cydgysylltydd gofal gefnogi'r broses drwy gyfarfod â'r person a'i deulu/gofalwr/eiriolwr i esbonio'r broses. Rhaid i staff gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, gweithiwr cymdeithasol penodedig fel arfer, gefnogi'r broses hon drwy ddarparu enwau cartrefi gofal a all ddiwallu anghenion gofal asesedig y person yn llawn ac sydd naill ai â lle ar gael ar hyn o bryd neu y **disgwylir y bydd lle yno'n fuan**.

Gyda chefnogaeth ei deulu/gofalwr/eiriolwr, dylid gofyn i'r person nodi ei ddewis o gartrefi gofal o'r rhai a nodwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol. Os yw'n ffafrio cartref gofal arall, dylai enwi'r cartref fel y gall y gwasanaethau cymdeithasol ystyried a phenderfynu a all y cartref gofal ddiwallu ei anghenion gofal a nodwyd yn unol â'r pedwar amod a nodir o dan **Pwy Sy'n Gyfrifol?**

Rhaid cofnodi canlyniad y cyfarfod a llunio crynodeb i gefnogi'r gwaith o bennu cartrefi gofal priodol, a dylid rhannu hyn â'r person neu ei gynrychiolydd enwebedig. Dylid cwblhau'r gwaith hwn o fewn tri diwrnod gwaith i'r cyfarfod.

Wythnos ar ôl y cyfarfod cychwynnol, dylai'r cydgysylltydd gofal gadarnhau'r cynnydd sy'n cael ei wneud i nodi a sicrhau lleoliad.

Os gall y cartref gofal o ddewis y person ddiwallu ei anghenion gofal asesedig ond ei bod yn annhebygol iawn y bydd ganddo le o fewn pythefnos, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried addasrwydd cartrefi gofal priodol eraill sydd â lle ar gael ac sy'n gallu darparu ar gyfer y person dros dro. Nid oes gan awdurdodau lleol unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i fodloni dewis pan fydd lleoliad cartref gofal yn cael ei gynnig dros dro. Nodir trefniadau lleoli dros dro mewn deddfwriaeth yn y dolenni ar ddiwedd y canllawiau hyn.

Dylai'r dyddiad rhyddhau gael ei gytuno rhwng yr ysbyty a'r timau gwasanaethau cymdeithasol gan gysylltu â darparwr y cartref gofal, ynghyd â'r person a'i deulu/gofalwr/eiriolwr. Dylid adolygu'n rheolaidd y dyddiad rhyddhau a'r amserlenni ar gyfer cefnogi rhyddhau'r person i'r cartref gofal o'i ddewis, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n briodol.

Beth sy'n digwydd os yw'r person yn ariannu'r costau ei hun neu'n chwilio am leoliad preifat?

Mewn achosion pan fydd person yn ariannu costau ei gartref gofal ei hun, ond nad yw'n dymuno cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol mewn unrhyw agwedd ar y trefniadau, dylai timau rhyddhau o'r ysbyty anelu o hyd at gynnal cydbwysedd o weithio ar y cyd tuag at ryddhau'n amserol ac yn ddiogel, ochr yn ochr â chaniatáu amser rhesymol i'r unigolyn ymgymryd â'r broses a'r camau angenrheidiol i nodi a threfnu ei leoliad cartref gofal.

Mewn achosion o leoliadau sy'n cael eu hariannu gan y person ei hun/lleoliadau preifat, pan nad yw'r unigolyn yn ceisio unrhyw gymorth gan ei awdurdod lleol cyfrifol, y person fyddai'n gyfrifol am gysylltu'n uniongyrchol â darparwr y cartref gofal o'i ddewis, gyda chefnogaeth ei deulu/gofalwr/eiriolwr.

Yn yr achosion hyn, efallai y bydd timau rhyddhau o'r ysbyty yn dymuno addasu a chymhwyso'r un camau/amserlenni, fel y nodir isod. Yn yr un modd, pa amserlenni bynnag y cytunir arnynt, dylid cyfleu'r rhain i'r unigolyn, yn ysgrifenedig yn ddelfrydol, fel ei fod yn cael gwybod na all aros yn yr ysbyty am gyfnod amhenodol, ond y rhoddir amser rhesymol iddo sicrhau ei leoliad cartref gofal. Os na cheir datrysiad boddhaol o fewn yr amserlen benodol, efallai y bydd angen ystyried trefniadau amgen gan gynnwys symud y person i gartref gofal dros dro neu ddilyn y weithdrefn ar gyfer rhyddhau cleifion cyndyn. **Rheoli Rhyddhau Cleifion Cyndyn / Trosglwyddo Gofal i Leoliad Gofal Mwy Addas.**

Amlinelliad bras o amserlen ar gyfer cefnogi rhyddhau person sy'n mynegi dewis o lety cartref gofal penodol

Wythnos 1

Y Cydgysylltydd Gofal i:

- ymgysylltu â'r person ac esbonio'r broses ryddhau. Mae cymorth defnyddiol ar gyfer y broses hon ar gael yn Gwybodaeth i Gleifion yn Atodiad C2.

Gwasanaethau Cymdeithasol i:

- nodi cartrefi gofal a all ddiwallu anghenion gofal y person ac sydd â lle ar gael neu y disgwylir y bydd lle yno'n fuan;
- galluogi'r person i fynegi dewis o gartref gofal arall.

O fewn 3 diwrnod

Y Cydgysylltydd Gofal i:

- gofnodi'r cyfarfod gan gynnwys nodi cartrefi gofal priodol.

Wythnos 2

Y Cydgysylltydd Gofal i:

- drafod â'r person a'r tîm Gwasanaethau Cymdeithasol y cynnydd o ran sicrhau lleoliad cartref gofal.

Wythnos 3

Y Cydgysylltydd Gofal a'r Tîm Gwasanaethau Cymdeithasol i:

- weithio gyda'i gilydd i adolygu'r sefyllfa ac ystyried y camau nesaf os na ellir symud y broses o ddod o hyd i leoliad cartref gofal yn ei blaen yn fuan.

Ystyried opsiynau ar y cyd, a chytuno arnynt, megis:

- ymestyn arhosiad yr unigolyn yn yr ysbyty (dim ond am gyfnod byr yr argymhellir hyn i ganiatáu ar gyfer rhoi cynlluniau terfynol ar waith);
- tîm y Gwasanaethau Cymdeithasol i drefnu lleoliad dros dro mewn cartref gofal arall hyd nes y bydd lleoliad ar gael yn y cartref gofal o ddewis y person;
- ystyried cysylltu â'r person a'i deulu/gofalwr/eiriolwr er mwyn iddo ddychwelyd i'w gartref/symud i gartref aelod o'r teulu nes bod lle ar gael yn y cartref gofal o'i ddewis;
- ystyried y gweithdrefnau rhyddhau cleifion cyndyn os yw'n ymddangos nad yw'r person a'i deulu/gofalwr/eiriolwr yn fodlon cymryd rhan yn y broses o'i ryddhau a'i leoli.

Beth os na ellir dod i gytundeb ac na ellir sicrhau lle yn y cartref gofal o ddewis y person?

Os oes anghydfod ynghylch y rhyddhau arfaethedig, gallai hyn fod oherwydd bod y person a/neu ei deulu/gofal/eiriolwr:

- yn amharod i gymryd rhan yn y broses ryddhau;
- yn amharod i leoliad gael ei wneud mewn cartref gofal a all ddiwallu anghenion gofal y person os na all y cartref gofal o'i ddewis wneud hynny;
- yn amharod i leoliad gael ei wneud mewn cartref gofal arall dros dro oherwydd, er y gall y cartref gofal o ddewis y person ddiwallu ei anghenion, nad oes lle yno ar y pryd;
- mae'r person (neu ei deulu/gofalwr/eiriolwr) eisiau aros yn yr ysbyty tan y gellir ei ryddhau i'r cartref gofal o'i ddewis.

Yn yr achosion hyn, neu mewn unrhyw achos arall sy'n golygu bod y broses o ryddhau person o'r ysbyty yn cael ei hatal dros dro, dylai staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol barhau i weithio gyda'r person a'i deulu/gofalwr/eiriolwr i ddatrys y materion. Er mai cyfrifoldeb y GIG yw rhyddhau cleifion, rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol arwain y broses o wneud trefniadau i'r person symud i gartref gofal priodol ar y dyddiad y cytunwyd arno ar y cyd. Y tu hwnt i'r amserlen y cytunwyd arni, os bydd person yn gwrthod cael ei ryddhau, dylid ystyried y canllawiau manwl ar ryddhau cleifion cyndyn, sydd i'w gweld yma: **Rheoli Rhyddhau Cleifion Cyndyn / Trosglwyddo Gofal i Leoliad Gofal Mwy Addas.**

Rhwymedigaethau Cyfreithiol Awdurdodau Lleol

Rheoliadau Dewis o Lety

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015 ("y Rheoliadau") (legislation.gov.uk)

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety, Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017 (legislation.gov.uk)

Mae'r Rheoliadau'n nodi cyfrifoldebau cyfreithiol awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â galluogi person i fynegi dewis o gartref gofal penodol. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys gofynion ynghylch meini prawf ac amgylchiadau pan fo'n rhaid cynnig dewis, amodau i'w bodloni, costau ychwanegol i'w talu, a gwrthod darparu cartref gofal sy'n cael ei ffafrio.

Dewis o Lety – Pennod 10 ac Atodiad C y Cod Ymarfer

Cod ymarfer ar godi ffioedd am wasanaethau gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU

Mae'r Cod yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Pan fydd y Rheoliadau sy'n rheoli dewis yn cael eu diwygio neu eu diweddarau, bydd y ffioedd hyn yn cael eu nodi yn y Cod.

Rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Cod Ymarfer. Mae Pennod 10 ac Atodiad C yn rhoi sylw'n benodol i ofynion a darpariaethau sy'n ymwneud â Dewis o Lety, ac yn cefnogi'r Rheoliadau ac yn ehangu arnynt, gan gynnwys meysydd megis lleoliadau cartrefi gofal dros dro, a threfniadau ar gyfer talu costau ychwanegol.

Atodiad C2 – Gwybodaeth i Gleifion

Symud i gartref gofal yn dilyn arhosiad yn yr ysbyty: gan gynnwys gwybodaeth am ddewis cartrefi gofal

Os ydych chi'n symud yn syth i gartref gofal ar ôl i'ch triniaeth yn yr ysbyty gael ei chwblhau, bydd yr wybodaeth isod yn rhoi arweiniad cyffredinol i chi, eich teulu ac unrhyw ofalwyr di-dâl sy'n rhoi cymorth i chi, ynghylch beth i'w ddisgwyl, y prosesau a'r trefniadau.

Beth alla i ei ddisgwyl os ydw i'n symud i gartref gofal?

Yn gyntaf, mae'n bwysig bod “asesiad gofal cymdeithasol a chymorth” ffurfiol yn cael ei gwblhau os ydych chi'n symud yn syth i gartref gofal. Bydd staff gwasanaethau cymdeithasol, efallai gweithiwr cymdeithasol o'ch awdurdod lleol (eich Cyngor), gyda chymorth staff yr ysbyty, yn cwblhau'r asesiad. Efallai y bydd angen asesiad ariannol hefyd i gyfrifo a oes angen i chi dalu tuag at gostau'ch cartref gofal. Byddwch chi, gyda'ch teulu os dymunwch chi, yn cael eich cynnwys ym mhob rhan o'r broses i helpu i sicrhau bod eich cam gofal nesaf yn iawn i chi.

Bydd canlyniad yr asesiadau hyn yn penderfynu a fydd eich awdurdod lleol yn gyfrifol am eich lleoliad cartref gofal a'r trefniadau ariannu. Os mai'ch awdurdod lleol fydd yn gyfrifol, a bod eich arhosiad yn barhaol – neu os nad yw'n barhaol, am gyfnod rhesymol o amser – bydd yr wybodaeth isod yn ganllaw defnyddiol.

Beth sy'n digwydd pan fydda i'n barod i adael yr ysbyty?

Mae symud i gartref gofal yn newid mawr ym mywyd unrhyw un. Byddwch yn cael eich cefnogi drwy'r broses hon gan eich Cydgysylltydd Gofal yn yr ysbyty, a fydd yn helpu i sicrhau bod yr holl drefniadau angenrheidiol yn cael eu gwneud. Byddwch yn cael gwybod am eich trefniadau gadael ac yn cael gwybod beth i'w ddisgwyl. Gofynnwch i staff eich ward am enw'ch Cydgysylltydd Gofal os nad ydych chi eisoes wedi cael yr wybodaeth hon.

Bydd staff yr ysbyty a'r gwasanaethau cymdeithasol yn eich helpu a'ch arwain drwy'r camau ac yn gyfrifol am sicrhau bod y broses hon yn digwydd yn briodol, yn ddiogel ac yn amserol. Mae trefnu'ch symud i gartref gofal yn gofyn i'r ddau dîm weithio gyda'i gilydd i sicrhau y bydd y cartref gofal yn addas i'ch anghenion gofal. Byddan nhw hefyd yn eich cefnogi i wneud dewisiadau pwysig ynghylch pa gartref a allai fod yn iawn i chi.

Beth os nad ydw i'n meddwl y dylwn i fod yn gadael yr ysbyty?

Allwch chi ddim aros yn yr ysbyty unwaith y bydd eich triniaeth wedi'i chwblhau a'ch bod yn cael eich ystyried “yn ffit yn glinigol”, sy'n golygu nad oes angen i chi fod yn yr ysbyty mwyach i gael gofal parhaus. Mae'n bwysig iawn eich bod yn cael eich rhyddhau ac yn gallu symud ymlaen i'ch cam nesaf o ofal cyn gynted â phosibl.

Mae cael eich rhyddhau unwaith y bydd eich triniaeth wedi'i chwblhau, a'ch bod yn ddigon da yn feddygol i adael, o fantais i chi a'ch lles mewn sawl ffordd:

- Rydych chi'n fwy tebygol o gael cyfleoedd i fod yn fwy symudol (lle bo hynny'n briodol), gan gryfhau'ch cyhyrau ac adennill eich hyder.
- Rydych chi'n llai tebygol o gael haint gan na fyddwch chi o gwmpas cleifion sâl.
- Bydd bod i ffwrdd o ward ysbyty prysur yn rhoi cyfle i chi orffwys a chysgu'n well, gan helpu gyda'ch adferiad.
- Ac wrth gwrs, gall eich gwely gael ei ddefnyddio gan glaf newydd sydd angen triniaeth feddygol.

Pwy sy'n gyfrifol am drefnu fy lle mewn cartref gofal ac a fydd rhaid i mi dalu?

Yn seiliedig ar ganlyniad eich asesiad ariannol, bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn nodi a oes angen i chi dalu costau'ch cartref gofal yn llawn neu a ydych chi'n gymwys i gael cymorth ariannol. Os ydych chi'n gymwys i gael cymorth ariannol, yna bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn dod yn gyfrifol am wneud eich trefniadau cartref gofal a byddan nhw'n gweithio gyda staff y cartref gofal i roi trefniadau ar waith erbyn i chi gyrraedd. Byddan nhw hefyd yn rhoi gwybodaeth i chi am unrhyw gyfraniad ariannol y gallai fod angen i chi ei wneud tuag at gostau'ch cartref gofal.

Pa mor hir ddylai hi gymryd i fy symud i gartref gofal?

Yn gyffredinol, ni ddylai gymryd mwy na 3 wythnos i'ch symud i'ch cartref gofal unwaith y byddwch chi'n ddigon da i adael yr ysbyty, gan ei bod yn bwysig nad ydych chi'n aros yn yr ysbyty am fwy o amser nag sydd angen. Bydd eich Cydgysylltydd Gofal yn rhoi gwybod i chi am eich dyddiad rhyddhau tebygol a sut mae'r trefniadau'n dod yn eu blaen.

Gaf i ddewis cartref gofal penodol?

Cewch – gallwch fynegi dewis ar gyfer cartref gofal penodol os yw'n gallu bodloni amodau penodol sy'n eich galluogi i gael eich lleoli yn y cartref.

Os yw'ch awdurdod lleol yn gyfrifol am eich lleoliad, bydd gofyniad cyfreithiol arno i sicrhau bod gennych chi ddewis go iawn a rhaid iddo sicrhau bod mwy nag un opsiwn cartref gofal ar gael a all ymateb i'ch anghenion gofal yn llawn. Mae'r gofynion cyfreithiol hyn hefyd yn sicrhau y gallwch fynegi dewis ar gyfer cartref gofal arall os dymunwch chi. Felly, os yw'n well gennych chi gartref gofal arall,

rhowch wybod i'ch Cydgysylltydd Gofal neu staff y gwasanaethau cymdeithasol cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, er mwyn gwneud trefniadau i chi fyw yn y cartref gofal o'ch dewis, rhaid iddo allu bodloni nifer o amodau. Mae'r rhain yn cynnwys gallu diwallu'ch anghenion gofal a bod lle yno ar hyn o bryd. Bydd staff y gwasanaethau cymdeithasol yn gallu esbonio'r amodau hyn yn llawn.

Os gall y cartref gofal yr hoffech symud iddo fodloni'r amodau angenrheidiol o ran eich anghenion gofal ond ei fod yn ddrutach nag y byddai'ch awdurdod lleol fel arfer yn ei dalu, neu os hoffech chi ddewis gwasanaethau ychwanegol, efallai y byddwch yn gallu symud i'r cartref gofal o hyd. Fodd bynnag, gallai olygu bod angen taliad wythnosol ychwanegol. Gelwir hyn yn "Daliad Cost Ychwanegol" a rhaid iddo gael ei dalu gan drydydd parti (aelod o'r teulu er enghraifft). Fel arfer, ni allwch wneud y taliadau eich hun. Bydd eich awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth am Daliadau Cost Ychwanegol a pham y gallai fod eu hangen yn y cartref o'ch dewis.

Os nad oes lle yn y cartref gofal o'm dewis, gaf i aros yn yr ysbyty?

Na – allwch chi ddim aros yn yr ysbyty am gyfnod amhenodol. Fodd bynnag, bydd staff yr ysbyty a gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio gyda chi a'ch teulu i gytuno ar gyfnod i'ch galluogi i fynegi'ch dewis ac ystyried opsiynau. Bydd hyd y cyfnod hwn yn cael ei rannu â chi.

Os gall y cartref gofal o'ch dewis ddiwallu'ch anghenion ond nad oes lle yno, byddwch yn cael eich rhyddhau i gartref gofal arall am gyfnod byr. Gelwir hyn yn "drefniant dros dro". Nid oes rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol gynnig unrhyw ddewis i chi am y cartref gofal rydych chi'n aros ynddo fel trefniant dros dro. Fodd bynnag, rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol sicrhau eich bod yn cael eich rhoi ar restr aros tra bod eich trefniant dros dro ar waith a rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y bydd lle ar gael yn y cartref gofal o'ch dewis. Yna, gallwch benderfynu a hoffech chi symud i'r cartref gofal hwnnw, ond efallai y byddwch chi'n gallu aros yn yr un rydych chi wedi bod yn aros ynddo os mai dyna yw'ch dymuniad.

A fydd angen i mi wneud fy nhrefniadau cartref gofal fy hun ac a fydd angen i mi dalu?

Efallai – gall hyn fod yn wir os yw canlyniad eich asesiad ariannol yn golygu nad ydych chi'n gymwys i gael unrhyw gymorth ariannol gan eich awdurdod lleol.

Yn yr achos hwn, efallai y bydd angen i chi dalu costau'ch cartref gofal yn llawn ond mae'n rhaid i staff y gwasanaethau cymdeithasol roi cyngor a chymorth i chi a'ch teulu wrth helpu i ddewis cartref gofal a threfnu eich symud iddo, os mai dyna rydych chi ei eisiau. Os oes rhaid i chi dalu'ch costau'n llawn, bydd dal i fod angen i chi ystyried y cartrefi gofal a all ddiwallu'ch anghenion gofal yn llawn ac sydd â lle i chi. Bydd angen i "ddarparwr gofal" y cartref gofal yr hoffech chi symud iddo fod yn rhan o'r broses. Ar ôl symud i'r cartref gofal, byddwch yn ymrwymo i drefniant ffurfiol gyda'r darparwr gofal, neu gallwch ofyn i'ch awdurdod lleol wneud yr holl drefniadau ffurfiol ar eich rhan os dymunwch, hyd yn oed os ydych chi'n talu'ch costau cartref gofal eich hun.

Allwch chi ddim aros yn yr ysbyty os nad oes lle gwag ar gael ar hyn o bryd. Bydd angen i chi symud i gartref gofal arall hyd nes y bydd lle gwag yn codi.

Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n gallu dewis cartref gofal penodol?

Os nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn gallu trefnu lleoliad yn y cartref gofal o'ch dewis, rhaid i chi gael datganiad ysgrifenedig sy'n esbonio'r rhesymau pam nad yw hyn wedi bod yn bosibl. Gellir gwneud hyn ar ôl i chi adael yr ysbyty.

Beth os ydw i'n anhapus gyda'r broses ryddhau neu'r trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith?

Fel cam cyntaf, efallai mai rhannu'ch pryderon gyda staff yr ysbyty neu wasanaethau cymdeithasol yw'r ffordd orau o ddatrys pethau'n gyflym. Os ydych chi dal i fod yn anhapus, mae gan y GIG ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol brosesau cwynion i'ch helpu i rannu pryderon am unrhyw agwedd ar eich gofal neu drefniadau gofal.

Oes yna unrhyw sefydliadau all gynnig help a chynghor?

Gall staff yr ysbyty a'r gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig eich Cydgysylltydd Gofal a'ch gweithiwr cymdeithasol, os oes un wedi'i benodi, gynnig cymorth a chynghor bob cam o'r broses o'ch rhyddhau o'r ysbyty a'ch symud i'ch cartref gofal a gallan nhw'ch cyfeirio at ffynonellau eraill o gyngor a gwybodaeth.

Mae'r sefydliadau canlynol yn cynnig llawer o wybodaeth a chymorth defnyddiol:

- Mae gan **Age Cymru** wybodaeth a thafleenni ffeithiau defnyddiol gan gynnwys hon sy'n egluro hawliau pobl ac yn rhoi gwybodaeth am ddewis cartref gofal: **Dewis cartref gofal os yw'r awdurdod lleol yn cyfrannu tuag at eich ffioedd gofal (agecymru.wales) (Saesneg yn unig)** Mae gwefan Age Cymru ar gael yma: **www.ageuk.org.uk/cymraeg/age-cymru** neu gallwch gysylltu â'r Linell Gyngor ar 0300 3034 498.
- Mae **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** yn llais ac yn hyrwyddwr annibynnol i bobl hŷn ledled Cymru, gan ddarparu gwybodaeth a chynghor ar hawliau pobl hŷn. Mae gwefan y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gael yma: **www.comisiynyddph.cymru** neu ffoniwch: 03442 640 670 am wybodaeth.
- Mae **Llais** yn gorff annibynnol sy'n cefnogi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol ac yn darparu cymorth gyda phryderon am wasanaethau drwy eu gwasanaeth cwynion ac eirioli cyfrinachol. Mae gwefan Llais ar gael yma: **www.llaiscymru.org** neu ffoniwch 029 2023 5558 am wybodaeth.
- Mae **Arolygiaeth Gofal Cymru** yn gallu darparu gwybodaeth am gartrefi gofal yn eich ardal. Mae ei gwefan i'w gweld yma: **Hafan | Arolygiaeth Gofal Cymru** neu ffoniwch 0300 7900 126 am wybodaeth.
- Mae **Cartrefi Gofal Cymru** yn adnodd ar-lein sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gartrefi gofal yn eich ardal. Mae ar gael yma: **www.cartrefigofal.cymru**